

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 478 • Mehefin 2017 • 50c

♥ Pesda a Dyffryn Ogwen?

'Roedd Neuadd Ogwen dan ei sang ar nos Wener, 26 Mai. ar gyfer cyfarfod cyhoeddus a alwyd gan y Grŵp Cymunedol lleol i drafod materion oedd yn poeni pobol yr ardal. Cafodd nifer fawr o'r gynulleidfa gyfle i ddweud eu dweud, ac i fynegi barn yn ddi-flewyn ar dafod ar faterion oedd ar eu meddyliau - gyda phroblem cyffuriau yn poeni llawer.

Wrth gwrs bod lle i gwyno ymhobman, ond o wrando ar yr holl gwynion a'r sylwadau negyddol mi fuasech chi'n meddwl bod Bethesda a Dyffryn Ogwen y lle gwaethaf dan haul i fyw, a thestun llawenydd i amryw ohonom oedd clywed rhai, cyn diwedd

y cyfarfod, yn canmol yr ardal ac yn sôn am yr ochr positif i bethau yn y Dyffryn.

Ydach **chi** wedi meddwl am y pethau da, am yr adnoddau sydd gennym yn y Dyffryn ar ein cyfer? e.e Neuadd Ogwen, Plas Ffrancon, Canolfan Cefnfaes, Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda, Canolfan Tregarth, Neuadd Mynydd Llandygai, Clybiau Rygbi, Criced a Pheldroed, dim ond i enwi rhai ohonynt.

Ydach chi wedi meddwl pwy oedd wedi sicrhau bod adnoddau fel y rhain gennym ni, a phwy sydd yn eu rhedeg a'u cynnal nhw? Yr ateb i raddau helaeth ydyw GWIRFODDOLWYR. Ie,

pobol sydd yn barod i weithio YN RHAD AC AM DDIM am eu bod yn caru eu hardal a'u cymuned. Mewn geiriau eraill, LLAFUR CARIAD!

Ydach chi wedi meddwl sut siâp fuasai ar ein cymuned heb wirfoddolwyr? Go brin y buasai gennym Sioe Dyffryn Ogwen, Eisteddfod Dyffryn Ogwen, Cwmni Drama Llechen Las, Tîmau Criced, Rygbi na Pheldroed. Nac ychwaith, bwyllgorau elusennol fel NSPCC, Cyfeillion Ysbyty Gwynedd ac eraill sy'n codi cymaint o arian at achosion teilwng. A beth am y clybiau pensiynwyr, y clybiau hanes, ysgolion Sul, a hyd yn oed Llais Ogwan? Mae nhw i gyd yn

dibynnu ar WIRFODDOLWYR! Diolch amdanynt! Ond mae angen rhagor ohonynt yn y fro. Buasai Balchder Bro, Siop Ogwen, Neuadd Ogwen ac eraill wrth eu bodd petaech yn barod i weithio'n WIRFODDOL iddynt.

Wrth gwrs bod lle i wella pethau ym Methesda a Dyffryn Ogwen, ond chawn ni mo'r maen i'r wal heb gydweithio gyda'n gilydd, yn gynghorwyr Sir, yn Gynghorwyr Cymuned, yn Grŵp Cymunedol, yn Heddlu ac unrhyw rai eraill, yn cynnwys GWIRFODDOLWYR, sydd â'r ardal hon yn agos at eu calonnau!

Gweithiwn gyda'n gilydd er lles ein bro a'n cymuned! (GOL.)

Ysgol Pen y Bryn yn dod a bri i'r ardal

Llongyfarchiadau i Gôr Ysgol Pen y Bryn ar eu buddugoliaeth yng nghystadleuaeth y corau cynradd yn Eisteddfod Genedlaethol y Urdd ym Mhen y Bont ar Ogwr. Diolch i Mrs. Ceren Lloyd am eu dysgu, ac i bawb fu'n cynorthwyo'r plant mewn unrhyw fodd.

Mae trigolion Dyffryn Ogwen yn falch iawn ohonoch!



Gwych gan Gwydion

Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys, Bron Arfon, Rachub ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai.

Daeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth yr Unawd Llinynnol (blynyddoedd 7-9), yn ail am Gyfansoddi (blynyddoedd 7-9) ac yn drydydd yng nghystadleuaeth y Fedal Gyfansoddi. Dan ni i gyd yn falch iawn ohonot ti, Gwydion!

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com
- Ieuan Wyn**
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
- Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
- Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk
- Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com
- Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
- Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk
- Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com
- Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

- Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
- Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
- Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
- Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
- Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Neville Hughes.

Y golygydd ym mis Gorffennaf fydd
Lowri Roberts, 8 Pen y Ffriddoedd,
Tregarth, Bangor, LL57 4NY
01248 600490
E-bost: l.roberts11@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 5 Gorffennaf
os gwelwch yn dda.
Plygu nos **Iau, 20 Gorffennaf**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Dyffryn Ogwen

- Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor

- Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon

- Palas Print

Porthaethwy

- Awen Menai

Rhiwlas

- Garej Beran

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Dyddiadur y Dyffryn

Mehefin

- 16 Noson William Williams Pantycelyn.
Eglwys Gadeiriol Bangor am 7.00
- 16 Gŵyl Gwenllïan. Darlith gan Ieuan
Wyn. Gwesty'r Douglas am 7.30.
- 16 Noson Lawen - Wil Tân ar band.
Neuadd Ogwen.
- 17 Gŵyl Gwenllïan. Taith i gopa
Carnedd Gwenllïan.
- 17 Te Mefus yn Ysgoldy Maes y Groes
am 3.00.
- 17 Côr y Penrhyn a Band Black Dyke.
Venue Cymru Llandudno.
- 17 Bore Coffi Cylch Meithrin Cefnfaes.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
- 21 Cyfarfod Blynnyddiol Cefnfaes.
Cefnfaes am 7.00.
- 27 Plaid Cymru Cangen Dyffryn
Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
- 28 Te Mefus yn Festri Bethlehem,
Talybont am 7.00.
- 29/30 Clwb Drama Crawia yn
cyflwyno Dawns Dyffryn Derw yn
Neuadd Ogwen

Gorffennaf

- 01 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn
Ogwen. Neuadd Ogwen.
10.00 – 12.00.
- 01 Garddwest y 3 Eglwys. Ficerdy St.
Cedol, Pentir. 1.00 – 4.00.
- 01 Cyngerdd a Gorymdaith "Llechi a
Llafur".
- 04 Merched y Wawr Tregarth. Noson
Gymdeithasol. Cae Drain, Tregarth.
- 05 Clwb Llanllechid. Gwibdaith.
- 06 Sefydliad y Merched Carneddi.
Gwibdaith Addysgiadol.
- 06 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 14 Cwmni Drama'r llechen Las yn
cyflwyno Cabaretta Marietta.
Neuadd Ogwen am 7.30.
- 20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRÆG

Rhoddion i'r Llais

- £30.00** Er cof am John Owen Roberts, Allt Pen y Bryn oddi wrth y teulu.
- £20.00** Gruff Charles Morris, Rhos y Nant, Bethesda
- £10.00** Di-enw, Bethesda.
- £20.00** John Ffrancon Griffith, Abergele, er cof annwyl am ei rieni, John (Jack) a Nesta Griffith, Tŷ Ysgol Glanogwen.
- £5.00** Llywela O'Brien, er cof am ei mam, Catherine Mary Thomas, 22 Glan Ogwen, Tregarth, a fu farw yn 60 oed ar 4 Mehefin 1978.
- £10.00** Mrs. Megan Phillips, Rhos Gordon, Bethesda.

Diolch yn fawr.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mehefin

- £30.00** (118) Gwenno Evans, Eryl, Stâd Coetmor, Bethesda.
- £20.00** (115) Griff. Charles Morris, Bigil, Rhos y Nant, Bethesda.
- £10.00** (5) Megan W. Phillips, Rhos Gordon, Bethesda.
- £5.00** (92) Menai Jones, 27 Erw Faen, Tregarth.

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

Llais Ogwan

I hysbysebu yn Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

Cyfleoedd newydd i wasanaethau Dyffryn Ogwen

Ym mis Medi'r llynedd cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yn Neuadd Ogwen i drafod dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yn y Dyffryn. Yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod hwnnw, mae criw wedi bod yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i edrych yn fanylach ar y mater ac i drin a thrafod syniadau newydd. Y prif bwnc dan sylw yw'r ffyrdd gorau o gynnal y gwasanaethau i'r dyfodol. Er bod y newidiadau yma'n deillio o doriadau sylweddol yng nghyllideb Cyngor Gwynedd, maen nhw hefyd yn newidiadau sy'n cynnig cyfleoedd newydd a ffyrdd gwahanol o wneud pethau.

Mae aelodau'r grŵp sy'n cyfarfod yn fisol i drafod y materion yma wedi bod yn ddiwyd dros y misoedd diwethaf yn canolbwyntio eu sylw ar Ganolfan Cefnfaes a'r llyfrgell ym Methesda. Dau adeilad sydd drws nesa i'w gilydd a 'sy'n bwysig iawn i'r gymuned leol. Erbyn hyn, hefo cefnogaeth gan brosiect Arloesi Gwynedd Wledig, mae 'astudiaeth opsiynau' newydd gael ei chomisiynu i asesu sut y gellid gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o'r safle cyfan. Bydd yr ymarferiad yn edrych yn fanwl ar gostau rhedeg, incwm llogi yn ogystal â pha newidiadau fyddai eu hangen er mwyn cynnig y gofod mwyaf addas ar gyfer gwahanol weithgareddau.

Gweithgareddau sy'n digwydd rŵan yn ogystal â rhai newydd. Y bwriad yn y pen draw fydd creu'r amgylchiadau mwyaf ffafriol i amddiffyn gwasanaethau cyhoeddus yn y Dyffryn.

Bydd hyn yn digwydd law yn llaw hefo'r newid yn statws y llyfrgell ym mis Medi eleni. Hynny yw, o Fedi ymlaen bydd y llyfrgell yn cael ei chategoreiddio fel 'llyfrgell gymunedol'. Yn syml iawn, golyga hyn bod Cyngor Gwynedd yn dal i ddarparu gwasanaeth llyfrgell am hyn a hyn o oriau bob wythnos ond y bydd yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill hefyd. Bydd corff lleol yn cymryd prydles ar y llyfrgell gan Gyngor Gwynedd a bydd y corff hwnnw, wedyn, yn rheoli'r defnydd ychwanegol. Hefo hyn mewn golwg, mae syniadau newydd sbon fel 'llyfrgell pethau' (gwasanaeth fydd, er enghraifft, yn cynnig rhoi benthyg teganau) o dan ystyriaeth.

Proses raddol sy'n dal i ddigwydd yw hon ar hyn o bryd felly mae digon o amser o hyd i unigolion sydd â diddordeb yn y drafodaeth ddod yn rhan o'r sgwrs bwysig hon. Os ydych am wybodaeth fanylach neu os dymunwch fod yn aelod o'r grŵp trafod, cysylltwch â Dafydd Einion Jones, Swyddog Adfywio, Cyngor Gwynedd, ar 01248 605 276 neu drwy e-bostio dafyddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru

Desg Caradog Prichard ym Methesda



Mari Pritchard ac Alun Llwyd

Mae desg awdur enwocaf yr ardal wedi canfod cartref parhaol ym Methesda. Dyma'r ddesg yr ysgrifennodd Caradog Prichard ei nofel enwog ,

Un Nos Ola Leuad, arni. Bydd yn cael lle amlwg ac anrhydeddus yn ngyntedd Ysgol Dyffryn Ogwen. Cynhaliwyd sermoni fer pryd y cyflwynwyd y ddesg

yn swyddogol i ofal yr ysgol gan Mari Prichard, merch yr awdur. Cafwyd cyfraniad hefyd gan Dr. J. Elwyn Hughes a'r Prifathro, Mr. Alun Llwyd

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd,
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Cais Cynllunio

Cafwyd cais cynllunio i newid Capel Bethel yn weithdy gwneud clocsiai, gan gadw'r tŷ capel dwy lofft sydd y tu ôl iddo fel y mae a chreu mynedfa i geir.

Croeso

Croeso adref i Ron a Wendy Jones, Bron Arfon wedi iddynt hedfan i Ganada i weld eu merch Laura a'i chymar. Gobeithio eich bod wedi cael amser da.

Diolch

Hoffai Kevin mab Derek a Jean ddiolch am y rhoddion a gafodd tra yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.

Diolch

Hoffai Meirion a Meleri a'r plant ddiolch o galon am yr anrhegion, cardiau a'r cyfarchion caredig ar enedigaeth eu merch Eiri Gwyn. Diolch arbennig hefyd i'r Prifardd Ieuan Wyn am lunio'r englyn yma i ddathlu genedigaeth Eiri.

Eiri Gwyn
Yn lanwedd, yn oleuni, - yn loyw
Lawen i'w rhieni,
Gyda'i gwynfyd hyfryd hi
Daeth euraid fendith Eiri.

Clwb Llanllechid

Cynhaliwyd Clwb Llanllechid ar bnawn Mercher Mai 10fed. Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod.

Anfonwyd ein cofion at Blodwen sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Rydym yn falch o glywed fod Gwenno adref o'r ysbyty.

Gan nad oedd gennym ŵr gwadd rhoddodd y Llywydd dasg i ni ei wneud. Yna cawsom drafod materion i'w wneud a'r clwb. Canwyd pen-blwydd hapus i Eirwen a Margaret Owen. Enillwyd y raffl gan Betty. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin y 7fed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Llwyd Beech am lwyddo i ddod yn ail yng nghystadleuaeth Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 2 ac Iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhen-y-bont. Da iawn ti Gwenno.

Llongyfarch

Llongyfarchiadau i Godfrey Northam, Llwyn Bedw am bresenoldeb 100% unwaith eto mewn cyfarfodydd o Gyngor Bethesda 2016 - 17. Llongyfarchiadau hefyd i'w ŵyr Idris Tomos o Gaerodwr (Bristol) am gael bathodyn gwyrdd Blue Peter wedi iddo hel man ysbwriel yn Lôn fach Odor, Maes Bledwyn, a Llwyn Bledwyn yn ystod ei wyliau.

Diwrnod o Hwyl

Cafwyd 'Diwrnod o Hwyl' llwyddiannus iawn yn y clwb Criced ar Fai 20fed gan godi swm sylweddol o arian at Ward Glaslyn, Ysbyty Gwynedd, er cof am Raymond Tugwell, pencampwr codi arian at achosion da.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Becca Ball ar ei swydd newydd fel Athrawes Dyniaethau yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Ar ôl dros ddeng mlynedd o waith caled yn Ysgol Morgan Llwyd, bydd yn braf i ti beidio gorfod teithio mor bell, ac mi fydd Ysgol Syr Hugh Owen yn lwcus iawn o dy gael! Pob lwc!

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.

Cafwyd noson ddifys yn y Clwb Hanes, yng nghwmni Mrs Fiona Griffiths, a roddodd sgwrs ddiddorol iawn i ni am 'Hwyl y Carnifal'. Gan fod llawer ohonom yn cofio dyddiau da'r carnifal yn yr ardal, pleser o'r mwyaf oedd cael gweld hen luniau o'r trigolion mewn gwisgoedd anhygoel yn gorymdeithio drwy strydoedd Rachub, neu'n cael eu cludo ar lorïau a faniau oedd wedi'u haddurno'n lliwgar.

Fel cymaint o hen arferion, gwreiddiau crefyddol sydd i'r carnifal, - sef dathliad cyn cychwyn ar gyfnod y Grawys. Yn fras, mae'r gair 'carnifal' yn golygu 'ffarwel i'r cig', felly cyfnod gwyllt o orymdeithio,

gloddesta, gwisgo mygydau rhyfedd, oedd hwn, - a chyfle i'r werin gyffredin gael hwyl fawr am bennau pobol mewn awdurdod.

Gwelwyd lluniau gwych [o eiddo Mr. Gwilym Rees] o sawl carnifal cynnar yn Rachub - o tua 1920 ymlaen. Ceffyl a throl oedd yn cludo'r cystadleuwyr a'r 'Frenhines', gyda thad Mr. Rees [sef Mr W.J. Evans, Bryn Eithin] yn eu tywys ar hyd y strydoedd. Roedd lluniau o'r 'Slate Queen' [Bethesda 1953/54], Brenhines y 'Groes Goch', John 'P' a'i wisgoedd theatrig, y carnifal oedd yn cyd-redeg â 'charnifal' mawr yr arwisgo, a thrafodwyd gwaith anhygoel 'Clwb y Mamau', a Majorettes Julie Rowlands. Arferai Rachub fod yn fwrwm cymdeithasol, ac fe'n hatgoffwyd o hynny heno, - diolch yn fawr, Fiona!


Cofiwch am ein cyfarfod nesaf, - nos Fercher, Mehefin 28 - noson yng nghwmni plant Ysgol Llanllechid.

Capel Carmel

Cymanfa Ysgolion Sul Annibynwyr Bangor a Bethesda
Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Carmel Llanllechid ar fore Sul braf, 21 Mai. Daeth cynulleidfadau ynghyd, gyda llawr y capel yn llawn o blant, pobol ifanc ac oedolion, ac fe gafwyd bore llawen a bendithiol yn cyd-addoli a chanu emynau'n frwdfrydig efo'n gilydd.
Gwobrwywyd 82 o blant



Gwydion Eryri a Lloer Prysor yn amlwg wedi gwirioni â'u chwaer fach newydd, Eiri Gwyn.



Owain ac Elen ar ôl eu deuawd.



Manon a Rhiannon gyda swyddogion y Gymanfa.

ac ieuenctid am eu gwaith yn yr ysgolion Sul ar hyd y flwyddyn, a braf oedd eu gweld yn dod ymlaen i dderbyn eu tystysgrifau a'u gwobrau ariannol.

Yr arweinydd cerddorol oedd Mrs. Helen Wyn Williams, Carmel, gyda Mrs. Rhian Roberts, Carmel, yn cyfeilio. Clwb Dwylo Prysur Carmel roddodd gychwyn teilwng i'r gweithgareddau ac fe gafwyd deuawd wirioneddol wych gan Elen ac Owain yn canu emyn enwog Ann Griffiths, "Wele'n sefyll rhwng y myrtydd". L lywiwyd y Gymanfa yn raenus iawn gan ddwy aelod o'r Clwb, sef Manon Huws a Rhiannon Llwyd. Daeth y Gymanfa i ben gyda phawb yn canu trefniant bywiog iawn o "Mae ganddo'r byd cyfan yn Ei law" i gyfeiliant ychwanegol y trwmped (Owain) a' drwm (Lois).

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad at lwyddiant y Gymanfa, yn cynnwys athrawon yr Ysgolion Sul, yr arholwyr, Mrs. Barbara Jones, Bethlehem, Miss Iona Jones, Peniel a Mrs Llinos Davies, Emaus, yn ogystal a'n trysorydd ffyddlon a gofalus, Mr. Joe Hughes, Carmel.

Trefn Gwasanaethau

- Mehefin
18: Miss Nerys Jackson.
25: Y Gweinidog.
Gorffennaf
2: Y Gweinidog (Cymun)
9: Parchg. Marcus Robinson.
16: Parchg. Geraint S. R. Hughes.

Oefaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ar ddydd Mawrth, 30 Mai, bu angladd y diweddar Mr. John Hubert Williams, gynt o Rachub. Bu farw ar 22 Mai yng Nghartref Coed Isaf, Llanrhos. Yn arwain y gwasanaeth yn y capel oedd Y Parchg. Ddr. Hugh John Hughes gyda Mrs Helen Williams wrth yr organ.Cydyndeimlwn â chi fel teulu i gyd.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at bawb o'r aelodau sy'n sâl.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Cartref Newydd

Rydym yn dymuno yn dda i Antonia Eastman, Walnut Cottage, yn ei chartref newydd yn Motcombe, Dorset,er mwyn bod yn nes at ei mab, Tom. Ar yr un pryd, rydym yn croesawu un o genod y pentref i'r tŷ, sef Mererid Leveret, Brian a Cara.

Hen Daid a Nain

LLONGYFARCHIADAU i Dei ac Eirlys Edwards, 23 Pentref Llandygai, ar ddod yn hen nain a thaid unwaith eto. Ganwyd Simon David i David a Jen o Penchwintan, Bangor - brawd bach i Elin.

Damwain

Cafodd Tomi Smith, rhif 7, ddamwain wrth docio gwrych yn yr ardd. Cafodd ei ruthro i'r ysbyty ar ôl torri ei fraich. Cadwa'n glir o 'stolion o hyn ymlaen Tomi!

Eglwys Sant Tegai

Stondin Canolfan Deiniol Bangor
Cynhelir y ddwy stondin nesaf ar ddydd Gwener, Mehefin 16, ac ar ddydd Gwener, Mehefin 23. Rhagwelir mai prif bwrpas y ddwy stondin fydd i werthu tocynnau raffl ar gyfer Garddwest y 3



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda, Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Eglwys yn Ficerdy Pentir ar Orffennaf 1af o 1 o'r gloch y prynhawn tan 4 or gloch.

Garddwest y Tair Eglwys Gorffennaf 1af 2017
Cynhelir yr Arddwest flynyddol yma ar brynawn Sadwrn Gorffennaf 1af 2017 rhwng 1 a 4 o'r gloch yn y Ficerdy Pentir. Cofiwch, rydym bob amser yn gwerthfawrogi unrhyw eitemau bychain (newydd neu mewn cyflwr ardderchog), teganau plant, gemau, gemwaith a llyfrau i'w gwerthu ar y stondinau ac i'r Tombola. Croesewir unrhyw gyfraniadau i'r Arddwest wythnos o flaen llaw yn y Ficerdy i gael eu didoli a'u prisio cyn yr achlysur. Bydd stondin i werthu teisennau a chynnyrch eraill ar y diwrnod hefyd.

Diolchiadau

Ar Ebrill 28 cynhaliwyd cyngerdd o "Dalentau Tegai" yn Eglwys Llandegai, a diolch i bawb a fu'n cyfrannu i lwyddiant ac i hwyl y noson. Cafwyd eitemau ar yr organ gan Martin Brown a Geraint Gill, darlleniadau a barddoniaeth gan Judith Page, Richard Douglas Pennant a'r Ficer John Matthews a chaneuon amrywiol gan Catrin Hobson, Geraint Gill a Chantorion Tegai. Darparwyd lluniaeth ysgafn ar ôl y cyngerdd a diolch yn arbennig i Nerys Jones ac i aelodau eraill o'r eglwys am drefnu hyn. Casglwyd dros £315 tuag at Gronfa Atgyweirio Eglwys Sant Tegai.

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b. Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen, Bryn Meurig Bach, Coed y Parc, Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Graddio yng Nghaliffornia

Llongyfarchiadau i Joey Ward o Dolwen, Ffordd Pant, ar ennill gradd B.A. mewn Economeg ym Mhrifysgol Califfornia, Berkeley. UDA, ym mis Mai.

Mae Joey yn gyn-ddisgybl o ysgolion Abercaseg a Phen y Bryn, Bethesda, ac Ysgol Friars, Bangor.

Roedd cael dychwelyd i’w wlad enedigol, sef America, i astudio mewn prifysgol yn amser cyffrous iawn i Joey, ac er syndod a phleser iddo, roedd yn hapus bod Berkeley wedi rhoi credyd academaidd iddo am fod yn rhugl yn y Gymraeg ar ôl llwyddo mewn arholiad iaith Gymraeg dan Raglen Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol.

Fel myfyriwr, bu’n gyd-olygydd y “Cal Literature and Arts Magazine”, ac i’w helpu gyda chostau ei astudiaethau, bu’n gweithio yn swyddfa Cofrestrydd y Brifysgol.

Mae Joey, sy’n 22 oed, yn dychwelyd adref i Dolwen, ac fe fydd yn chwilio am swydd yng Nghymru neu yn rhyngwladol.



Priodas

Llongyfarchiadau i Angharad, merch Alan a Shirley Evans. Erw Las a Huw, mab Gwilym a Catrin Williams Yr Ynys, Rachub, at achlysur eu priodas ar Fai 26ain yn Eglwys Crist Glanogwen.

Cylch Meithrin Cefnfaes

Cawl a Chan gyda Hogia’r Bonc Cawsom noson llawn hwyl gyda Hogia’r Bonc yng Nghlwb Criced, Bethesda ar y 3ydd o Fawrth i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac i hel arian tuag at y Cylch. Mae Cylch Cefnfaes yn elusen ac yn dibynnu ar ddigwyddiadau hel arian i’w gadw yn agored. Diolch i’r rhai daeth i i’r noson a

diolch arbennig i Glwb Criced Bethesda, Hogia’r Bonc, staff Cylch Cefnfaes, aelodau’r Pwyllgor, ac i Olive Williams am helpu. Diolch i chi gyd.

Bore Coffi

Cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar y 11eg o Fawrth. Roedd yn fore llwyddiannus iawn! Diolch i’r rhai ddaeth a rhywbeth tuag at y raffl a’r llu o gacennau. Fe wnaethom godi bron i £400 tuag at y cylch. Diolch eto i bawb.

Dewch i gefnogi bore coffi arall yng Nghanolfan Cefnfaes ar y 17 o Fehefin. Diolch!

Pwyllgor Cylch Meithrin Cefnfaes

Rydym yn chwilio am aelodau newydd i’r pwyllgor, Person Cofrestredig a Chadeirydd. Os oes gennych ddiddordeb mae croeso i chi gysylltu â Mary Jones (600274) neu Mari Emlyn Wyn (07590 759317).

Dathlu

Fel rhan o’u dathliadau 45 mlynedd roedd Y Mudiad Meithrin wedi gofyn i’r cylchoedd ddathlu trwy drefnu Parti Pyjama Mawr. Dyma lun o Gylch Cefnfaes i gyd, gan gynnwys y staff yn gwisgo eu pyjamas lliwgar ar y diwrnod.

Mae tymor yr haf yn amser prysur iawn ac mae’r plantos yn cael hwyl allan yn tyfu planhigion ac yn mwynhau chwarae.

Ddiwedd y mis cynhaliwyd ‘Beicio Noddedig’ yn y cylch a gyda’r plantos i gyd wrth eu boddau yn cael mynd ar y beiciau ac yn sgil hynny codwyd yn agos i £500. Er bod arian yn dod i’r cylch o wahanol ffynonellau mae hi’n anodd er hynny cadw dau ben llinyn ynghyd ac mae’n hanfodol bod achlysuron codi arian yn cael eu trefnu yn rheolaidd.

Eglwys Crist Glanogwen

Gwasanaethau mis Gorffennaf:

Cymun Bendigaidd pob Dydd Sul am 11:00, gyda Cymun Bendigaidd hefyd am 8:00 ar Sul cyntaf y mis. Gwasanaeth Cymun pob Dydd Mercher am 10:30 gyda coffi i ddilyn. Croeso i bawb ymuno â ni.

Ysbyty

Cofion cynnes a gwellhad buan at y rhai a fu mewn ysbyty yn ddiweddar sef Swyn Angharad Wyn Owen, Bryn Meurig Bach, Mrs. Janet Hughes, Stad Coetmor, Mrs Joan Parry, Abercaseg, Mr. Dewi Hughes, Glanffrydlas, a Mrs. Megan Hughes, Rhos y Coed, sydd bellach adref ar ôl treulio 6 wythnos yn yr ysbyty.

Priodas Rhuddem

Llongyfarchiadau mawr i Martin a Carys Hebenstreit, Hafod y Nant, Rhos y Coed

ar achlysur eu Priodas Rhuddem yn ddiweddar.



Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Arwel Hughes, Garneddwen, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a naini Isla Haf a anwyd ar 12 Mai, yn ail ferch i Simon a Kerry Hughes yng Nghaer. Chwaer fach i Imogen Mai. Llongyfarchiadau hefyd i Mrs. Glenys Rowlands, Adwy’r Nant, ar ddod yn hen nain unwaith eto.

Cydymdeimlo

Anfonwn eim cydymdeimlad at deulu Mrs. Edith Roberts, Llanllechid, gynt o Fferm Corbri, a fu farw dim ond mis wedi marwolaeth ei mab, George. Cydymdeimlwn â chwi yn eich profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a charedig.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Mr. a Mrs. Dafydd Bullock a’r teulu, Rhos Elfed, a Mrs. Sheila Williams a’r teulu, Stryd y Dŵr, yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, taid a hen daid, sef y diweddar Mr. John Hubert Williams (Rachub, gynt).

Marw

Yn sydyn yn ei gartref, 75b Stryd Fawr, ar 6 Mai, bu farw Mr. William Garrett, brawd annwyl Iain a David, brawd yng nghyfraith Carol ac ewythr i John a Shaun. Gŵr tawel a bonheddig ydoedd, bob amser yn barod ei sgwrs ar y stryd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor ddydd Iau, 25 Mai. Cydymdeimlwn â’r teulu i gyd.

Sefydliad y Merched Carneddi

Ar noson ddigon braf cawsom ein cyfarfod Mehefin o’r sefydliad gyda phawb yn bresennol. Llongyfarchodd ein llywydd ddwy o’r aelodau oedd wedi dod yn hen neiniau, sef Gwen Davies a Doris Shaw. Mwynhewch y babis ferched!

Roedd rhai o’r merched wedi gwneud tîm i fynd i Lanberis i gystadlu mewn gemau Boccia ac fe ddaethom yn ail yn

y gystadleuaeth a chael canmoliaeth am gystadlu am y tro cyntaf !! Da iawn chi am roi Sefydliad Carneddi ar y map fel petai.

Llongyfarchwyd Jean Hughes ar ennill gwobr yng nghlwb 200 y ffederasiwn.

Anfonwyd ein cofion at Dilys, chwaer Jean, oedd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond yn ôl yn Plas Ogwen erbyn hyn. Aeth Gwyneth Morris ymlaen i ddarllen cofnodion mis Mai, ac fe gafwyd y llythyr misol â'i gynnwys gan y llywydd a thrafodwyd un neu ddau o'r materion.

Ein gwibdaith addysgiadol fydd genym mis nesaf, felly bydd gwybodaeth am hyn yn y Llais.

Ein gwraig wadd oedd Susan Land Peters o Gaernarfon a roddodd arddangosfa gosod blodau i ni. Bu'n cadw siop yn y dref, ond erbyn hyn yn gweithio o'i chartref o dan yr enw Blodz. Wedi cael ei dysgu yn y coleg am bob math o flodau a choed ac yn y blaen, yn ogystal â sut i'w gosod at bob achlysur. Cawsom 6 neu 7 gosodiad gwych ganddi, a phawb yn holi am wahanol flodau ac ati. Noson liwgar dros ben!

Diolchwyd iddi gan Gwyneth Morris ac i'r gwestwragedd am y lluniaeth. Enillydd y wobwr lwcus oedd Jean, yn rhoddedig gan Rita.

Bore Coffi Cymorth Cristnogol

Elw'r Bore Coffi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes ar 13 Mai oedd £443.69. Diolch i aelodau rhai o eglwysi'r cylch am eu cymorth ac i bawb am eu cefnogaeth. Cychwyn gwych i'r Wythnos Gasglu!

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Yng Nghanolfan Cefnfaes ar fore Sadwrn, 20 Mai, cynhaliwyd ein bore coffi blynyddol, ac fe wnaed elw o £280.00. Diolchwyd i aelodau a chyfeillion am eu help ac am y nwyddau a'r gwobrau gan y cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Rydym fel aelodau yn anfon ein cydymdeimlad at Mrs. Christine Jones, Rachub, wedi iddi golli ei chwaer o Glasinfryn.

Cofion a gwellhad buan at yr aelodau sy'n sâl, ac wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar, sef Mrs. Joan Griffiths, Glanffrydlas a Mrs, Gwenda Jones, Glanffrydlas.

Diolch

Hoffai Swyn Angharad, Bryn Meurig Bach, ddiolch yn fawr am y cardiau, y rhoddion, y negeseuon a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth diweddar. Diolch o galon i bawb.

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i David a Stella Davies



ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt. Mae Dafydd Vince, gynt o Adwy'r Nant, Bethesda, a'i wraig Stella, bellach yn byw yn Swydd Bedford. Mae ganddynt ddwy ferch, pump o wyrion a thri o or-wyrion gwych. Mae David yn mwynhau darllen Llais Ogwan bob mis. Dymuniadau gorau i chi'ch dau, a diolch David am barhau i gefnogi Llais Ogwan.

Diolch am haelioni

Ym mis Mawrth dathlodd Ian a Brenda Hughes, 19 Rhes Gordon, eu Priodas Aur. Penderfynwyd gofyn i'r teulu a ffrindiau gyfrannu tuag at eu helusennau dewisiedig. Mae Ian a Brenda yn ddiolchgar iawn i bawb am eu rhoddion caredig. Casglwyd £820.00 i'w rannu rhwng Nyrsus McMillan, er cof am Bill (brawd Ian a Robin), a hefyd i Ward Glaslyn er cof am ffrind annwyl, Raymond Tugwell.

Eglwys Unedig Bethesda

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn methu ymuno â ni yn ein hoedfaon. Bu Mrs. Glenys Clarke yn yr ysbyty, ond yn ôl yng Nghartref Cerrig yr Afon erbyn hyn. Bu Mr. Dewi Hughes, Glan Ffrydlas, yn yr ysbyty i gael llaw-driniaeth. Dymunwn y gorau iddynt!

Cafwyd oedfa Sul y Blodau hyfryd gan blant yr Ysgol Sul a'r Clwb Nos Fawrth. Bu canmoliaeth mawr iddynt oll am eu rhannau yn gwasanaeth arbennig hwn. Diolch i'r athrawon am eu dysgu. Cafwyd paned a sgwrs ar ôl yr oedfa. Braf oedd gweld pawb yn cymdeithasu â'i gilydd!

Rhiannon oedd yn gofalu am y Cyfarfod Gweddi. Diolch i Minnie a Ceri am ei chynorthwyo, a hefyd i Minnie am gyfeilio.

Y Gymdeithas

Croesawyd pawb gan Joe, ein llywydd, cyn cyflwyno Mr. Dewi Rowlands atom i sôn am ei daith i Wlad yr Iâ. Cafwyd lluniau arbennig o adar ac anifeiliaid ganddo, a phawb yn rhyfeddu ac yn mwynhau. Diolchwyd iddo gan Rhiannon, ac i ferched y baned sef Mair, Eira a Ceri.

Urddo

Llongyfarchiadau i Buddug Watcyn Roberts ar ennill cystadleuaeth Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen. Cafodd ei hurddo yno gan y Gymdeithas a threulio noson yn hostel y coleg. Profiad arbennig iddi. Da iawn ti!

Cafwyd oedfa gymun fore'r Pasg dan arweiniad y Parchedig Pryderi Llwyd Jones. Diolch iddo!

Dwy oedfa arall a ddaeth a ni yn nes at ein "cymydog" a gafwyd gan y Parchedig Gwilym H. Jones a'r Parchedig Huw John Hughes – ill dau wedi ein hysbrydoli'n fawr. Mae pawb yn gymydog i ni!

Sul y Gymanfa yn Eglwys Berea Newydd
Aeth llond bws o blant ac aelodau i Berea. Gwobrwyd y plant a chafwyd mwynhad mawr o'u gweld ar y llwyfan. Diolch i'r plant a'u hathrawon am bob dim.



Plant Ysgol Sul Jerusalem yn y Gymanfa.

Oedfa Cymorth Cristnogol
Cynhaliwyd Oedfa Cymorth Cristnogol ar 14 Mai dan arweiniad y Parchedig Ddr. Elwyn Richards, gydag aelodau o eglwysî'r cylch yn cymryd rhan, sef St. Mair (Gelli) – Brenda Hughes; Eglwys Crist Glanogwen – Barbara ac Ivy; Betlehem – Barbara, Jean a Neville; Eglwys Unedig – Elna, Gwenno a Ceri; Carmel – Margaret, Megan a John; Diolch i Minnie am gyfeilio ac i bawb am eu cyfraniad – ac am y casgliad anrhydeddus tuag at Gymorth Cristnogol.

Minnie oedd yn gofalu am y Cyfarfod Gweddi ar y thema Cymorth Cristnogol gyda Luned a Megan yn cynorthwyo. Diolch iddynt! Cafwyd dwy oedfa ar Sul, 28 Mai, dan ofal Menai yn y bore ac Elina yn y nos. Dwy oedfa arbennig eto. Diolch iddynt am eu cyfraniad!
Daliwn i gael y baned ar foreau Iau pryd y cawn gyfle i fod gyda'n gilydd. Croeso i bawb atom! Gwnaed casgliad o £140 tuag at y Genhadaeth. Diolch i bawb!

Y Cyhoeddiadau
Mehefin 18: Mr. Gwilym Williams (am 10.00); Parchg. Gwenda Richards (am 5.00).
Mehefin 25: Parchg. Eifion Williams (am 5.00)
Gorffennaf 2: Parchg. T. E. Williams (am 5.00)
Gorffennaf 9: Parchg. Eric Jones.
Gorffennaf 16: Parchg. Cledwyn Williams.

Anfonwn ein cofion at Mr. Dewi Hughes sydd yn yr ysbyty eto. Hefyd at Mrs. Caren Roberts (Brown) sydd wedi bod mewn damwain car ac wedi cael anaf drwg i'w ffêr. Brysiwch wella.

Llongyfarchiadau eto i Buddug Watcyn Roberts ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd. Mae talent Buddug yn y byd llenyddol yn fawr iawn. 'Rydym yn falch iawn ohoni! Pob lwc i'r dyfodol iddi!

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Cyfarfod Blynnyddol, nos Lun, 8 Mai 2017, gyda Mrs. Mair Griffith, llywydd y Cyfeillion yn y gadair. Wedi gair o groeso cyflwynodd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs. Nia Williams, Mr. Karel Lec, Mr. Hywel Williams A.S., Mrs. Siân Gwenllian, A.C., Mr. Rhun ap Iorwerth, A.C., Mr. a Mrs. Malcolm Morris. Croesawodd y llywydd aelodau newydd sef Mrs. Dorothy Hughes â'i phriod Mr. Glyn Hughes o Lanfairpwll.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 9 Mai 2016 gan Wendy Jones ac fe'u cafwyd yn gywir.

Adroddiad y Cadeirydd – Joe Hughes
Cafwyd gwybodaeth ganddo am ddigwyddiadau'r flwyddyn a faint o arian a godwyd tuag at waith y Cyfeillion o ganlyniad i'r holl weithgarwch.
Diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn, sef Iona Jones, Is-gadeirydd; Dewi Morgan, Trysorydd; Wendy Jones, Ysgrifennydd Cofnodion; Meryl Read, Ysgrifennydd.

Diolchodd hefyd i'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u cyfeillgarwch. Dywedodd hefyd, pa mor falch oedd o gael cwmni Iona Wyn Jones, Geraint Roberts, Helen Pritchard, Ceinwen Williams a Iona Jones wedi iddynt dreulio cyfnodau yn yr ysbyty yn ystod y flwyddyn.
Diolchodd i Jean, Margaret, Kath a Ceinwen am drefnu'r Tombola Haf a Nadolig a chodi elw o £3,145.08.
Diolchwyd hefyd i Peggy, Mair, Brenda ac Eirlys am eu hymdrech flynyddol gyda'r cywion Pasg. Roedd Peggy wedi gwau 500 o gywion ac Eirlys wedi casglu 580 o wyau bach siocled.
Adroddodd y cadeirydd fod y Cyfeillion

wedi llwyddo i brynu nwyddau gwerth £52,351.11 i'r ysbyty yn ystod y flwyddyn a aeth heibio sef :
“Stroke Care Dynamap £14,285.50 ; Hysteroscopy Set, Pulmonary Function £18,960.50;
Overchair tables (Alaw) £1,247.04 ; ipad Dementia Support £349.00; Laryngoscope Syustem £8,925.00 ; Endoscopy Equipment £8,034.07 ; Transfer Bag £550.00.”
Diolchodd i'r holl aelodau am eu gwaith caled yn codi'r arian er mwyn rhoi cymorth i'r ysbyty.
Cyfeiriodd fod dwy aelod wedi ymddiswyddo yn ystod y flwyddyn sef Mrs. Ann Williams, Rhiwlas, a Mrs. Ann Lloyd Williams, Llanfairfechan, ond da dweud eu bod yn barod i helpu pan fyddai angen, a bod Ann, Rhiwlas, yn parhau gyda'r bwrdd gwerthu.
Adroddwyd fod y bore coffi ym Methesda ar 29 Ebrill eleni wedi gwneud elw o £736.00.
Diolchodd y cadeirydd i Mrs. Mair Griffith am arwain y cyfarfod ac am ei chefnogaeth i waith y Cyfeillion.

Adroddiad y Trysorydd
Cafwyd adroddiad manwl gan Mr. Dewi Morgan a gyflwynodd daflen i bawb yn dangos sefyllfa ariannol y Cyfeillion. Penderfynwyd derbyn y fantolen gyda Iona Jones yn diolch i'r Trysorydd am ei ofal o'r gronfa.
Iona hefyd gyflwynodd y diolchiadau i'r ysbyty am gael defnydd o'r ystafell i gynnal ein pwyllgorau misol.
Diolch i Nia am baratoi lluniaeth ysgafn i'r aelodau ar ddiwedd y cyfarfod.

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Linda Brown ar gael ei hethol yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda am y flwyddyn 2017/18.

Croesawyd dau aelod o Blaid Cymru yn aelodau newydd o'r Cyngor Cymuned, sef Einir Williams a Bleddyn Hughes.

Ynghanol prysurdeb yr ymgyrch i ail-ethol Hywel Williams i'r Senedd yn Llundain, cynhaliwyd cyfarfod ar 30 Mai i gynllunio'r gweithgarwch ar gyfer y dyddiau olaf. **Bydd cyfarfod nesaf y Gangen yng Nghefnfaes ar nos Fawrth, 27 Mehefin am 7 o'r gloch.**



Ysgol Abercaseg

Prynhawn Eidalaid

Penderfynodd grŵp Ffrindiau'r Byd drefnu prynhawn Eidalaidd yn yr ysgol i ddysgu am arferion y wlad. Daeth Mrs Fran D'Amora sydd wedi priodi Eidalwr, a sy'n fam i ddau o ddisgyblion yr ysgol, i sgwrsio am fwydydd Eidalaidd a chafwyd hwyl yn dysgu Eidaleg. Diolch yn fawr iawn iddi. Diolch hefyd i staff y gegin am baratoi gwledd Eidalaidd amser cinio, roedd pawb wrth eu boddau'n bwyta pasta a hufen iâ. I gloi'r prynhawn bu'r plant yn gwneud gwahanol weithgareddau yn ymwneud â'r Eidal yn eu dosbarthiadau.



Mabolgampau

Cynhaliwyd mapolgampau'r ysgol cyn cau am hanner tymor. Roedd yn braf gweld y cae yn orlawn o rieni'n mwynhau edrych ar eu plant yn rhedeg a neidio. Er nad oedd pawb yn fuddugol roedd yr holl blant yn mwynhau a da iawn nhw am geisio'u gorau glas.

Plannu

Gwreiddiau yw thema'r dosbarthiadau ar hyn o bryd ac er mwyn dysgu am dyfiant bladau a llysiau mae'r holl ddosbarthiadau wedi bod yn plannu'n yr ardd. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd gennym ardd llawn tatws, moron a nionod os na fydd y cathod a'r gwlithod wedi cael gafael arnynt. Os oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Llais Ogwan gyngor ynglŷn â garddio'n llwyddiannus byddem yn falch iawn o glywed gennych.



Gofalu am ein dannedd

Daeth Sara o Gynllun Gwên i siarad â phlant y dosbarth Meithrin am bwysigrwydd glanhau dannedd a pheidio bwyta neu yfed gormod o siwgrwr. Mae pob plentyn yn glanhau eu dannedd yn ddyddiol yn yr ysgol er mwyn gwneud yn siŵr fod gan bawb ddannedd glan gloyw.

Cofio Hedd Wyn

Mae'r trefniadau yn symud ymlaen yn hwylus i gofio canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn yn Fflandrys. Mae'r gwaith caled yn cael ei wneud i drefnu nifer o gyngherddau a gwasanaethau dros benwythnos Gorffennaf 28 hyd at Awst 1af 2017. Eisoes cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yn Lerpwl wedi ei drefnu ar y cyd rhwng y Pwyllgor Cymru'n Cofio dan lywyddiaeth Syr Deian Hopkin a'r Parch D.Ben Rees ar Ionawr 28. Dyna'r dyddiad y cyrhaeddodd Hedd Wyn i'r baracs yn ochrau Litherland. Cymerwyd rhan gan Gôr Rygbi Gogledd Cymru, Rhys Meirion, Gwydion Rhys a Dylan Cernyw.

Bydd y gweithgareddau yn cychwyn yn Fflandrys gyda gwasanaeth ym Mynwent Tynecot, Passiondale. Dyma un o'r mynwentydd mwyaf yn Ewrop. Yna ar Orffennaf 31, am 5.00 o'r gloch y bore bydd y côr yn canu mewn gwasanaeth yng Nghefn Pilgrem. Dyna'r awr y cafodd y milwyr y gorchymyn i ddechrau'r frwydr. Yna ceir cyngerdd Y Cofio, gyda Rhys Meirion a Dylan Cernyw a'r Côr pan ddadorchuddir y gofeb gan yr Archdderwydd. Disgwylir y bydd y Tywysogion Charles a William yn bresennol yma. Gobeithio y byddant yn cael ysbrydoliaeth dros y Gymraeg wedi iddynt gyrraedd adref. Gyda'r nos fe genir y Last Post yn y Mennim Gate. Trefnir nifer o wasanaethau a chyngherddau ar y dydd Llun a Mawrth. Ar y dydd Mawrth bydd y côr yn canu yn Talbot House. Dyma adeilad lle byddai'r milwyr yn cael seibiant o'r ymladd.

Am ragor o wybodaeth, tocynnau a rhaglenni cysylltwch gyda Glenna ac Alwyn Bevan ar 01248 600 678.

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ymgymmerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



17 Mehefin – Cefnfaes – Cylch Meithrin Cefnfaes
01 Gorffennaf – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen
15 Gorffennaf – Cefnfaes – Cronfa Tracey Smith.
09 Medi – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
16 Medi – Cefnfaes – Clwb Camera
23 Medi – Cefnfaes – Capel Jerusalem
30 Medi – Cefnfaes – Eglwys Glanogwen
07 Hydref – Cefnfaes – Plaid Cymru
21 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
28 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir.
04 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
11 Tachwedd – Cefnfaes – Gorffwysfan
25 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid Lafur
25 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarau ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Gorffennaf 8fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Awst 12fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Medi 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Bwydydd, Crefftiau, Lleoli

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
MEHEFIN 27
GORFFENNAF 11 a 25
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CYLCH MEITHRIN CEFNFAES
SADWRN 17 MEHEFIN
10.00 – 12.00

NEUADD OGWEN

BORE COFFI EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN
SADWRN, 1 GORFFENNAF
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

CYNHELIR
CYFARFOD BLYNYDDOL CEFNFAES
AM 7.00 O'R GLOCH
NOS FERCHER, 21 MEHEFIN
CROESO CYNNES I BAWB

ST. MAIR, ST. TEGAI a ST CROSS

GARDDWEST 3 EGLWYS
FICERDY PENTIR
1 AF GORFFENNAF AM 1.00
AMRYW STONDINAU, RAFFL, LLUNIAETH, GEMAU PLANT

AGORIR GAN NEVILLE HUGHES

MYNEDIAD YN CYNNWYS DIOD:
£2.00 (OEDOLION) 50C. (PLANT)

YSGOLDY MAES Y GROES

TALYBONT
TE MEFUS
SADWRN 17 MEHEFIN
AM 3.00 O'R GLOCH.

FESTRI BETHLEHEM

TALYBONT
TE MEFUS
NOS FERCHER
28 MEHEFIN
AM 7.00 O'R GLOCH.

Cwmni Drama'r Llechen Las
yn cyflwyno

Cabaretta Marietta

Noson amrywiol o adloniant
i oedolion yn
Neuadd Ogwen, Bethesda
Nos Wener, 14 Gorffennaf 2017
am 7.30pm

Tocynnau ar gael o wefan y Neuadd
www.neuaddogwen.com

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Diolch

Dymuna Beryl Buchanan a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli George (brawd) a hefyd mam, nain, hen nain a hen hen nain gariadus, sef y ddiweddar Mrs Roberts, Corbri, Llanllechid.

Diolch hefyd am yr holl gardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd a diolch arbennig i staff Ward Gogarth yn Ysbyty Gwynedd a staff Ward Padarn yn Ysbyty Eryri am eu gofal a'u caredigrwydd.

Mae cydymdeimlad pawb o bobl yr ardal gyda chi a'ch teulu niferus yn eich colled.

Ysgol Tregarth

Noson Sinema

Mae'r Cyngor Ysgol yn parhau i weithio'n frwdfrydig y tymor hwn. Nos Fercher Mai 24 fe gynhaliwyd y Cyngor 'Noson Sinema' yn Neuadd yr ysgol er mwyn codi arian i brynu bin i'r ardal allanol. Llwyddodd y Cyngor godi £240.47 yn ystod y noson. Hoffem ddiolch yn fawr i'r plant, rhieni, Cyngor Ysgol a Ms Llinos Barnes am noson lwyddiannus iawn.

Plannu Briallu

Er mwyn dathlu agoriad llwybr y Twnnel Tywyll yn Nhregarth fe wahoddwyd disgyblion yr ysgol i blannu briallu ger y llwybr newydd. Aeth y Cyngor Ysgol a Ms Barnes lawr at y llwybr fore Iau, Mai 25 i blannu. Gobeithio y byddem yn gweld y briallu'n blodeuo'n flynyddol. Diolch yn fawr i'r Cynghorydd Dafydd Owen am drefnu.



Trip Dosbarth Idwal

Cafodd Dosbarth Idwal ddiwrnod bendigedig ym Mhili Palas fel sbardun i'r thema, 'Pethau Bychain Pitw'. Roedd yn gyfle gwych i gael dysgu am nifer o greaduriaid bach a hyd yn oed cael gafael mewn ambell un! Roedd pawb yn ddewr iawn ac wedi mwynhau'r cyfle. Cafwyd picnic blasus cyn mwynhau ein hunain yn yr ardal chwarae. Bydd yr ymweliad yn sicr o fudd i'r disgyblion wrth iddynt barhau i astudio creaduriaid bach.

Taith i'r copa

Yn ystod y mis cafwyd profiad bythgofiadwy i ddosbarth Tryfan wrth iddynt gael mynd ar y tren i gopa'r Wyddfa. Taith oedd hon yn seiliedig ar ein thema asiantau teithio. Tra roeddem ar y daith cawsom weld llawer o ryfeddodau Eryri. Gwelwyd golygfeydd godidog ar fore mor braf. Roedd hi'n bosibl gweld mor bell â Phenfro ac i bellteroedd Sir Fôn! Diolch yn fawr iawn i gwmni Rheilffordd yr Wyddfa am ein croesawu. Wedi ein taith cawsom fynd o amgylch Llanberis yn ystyried beth oedd mor arbennig am Lanberis fel pentref twristiaid. Yn dilyn y daith bu'r disgyblion

yn brysur yn ysgrifennu dadl o blaid ac yn erbyn twristiaid yn Llanberis.

Ymweliad Llanberis

Cafodd Dosbarth Ffrydlas wythnos i'w chofio. Ar ddydd Mawrth, Mai 23ain aethant ar ymweliad â phentref Llanberis fel rhan o'u gwaith thema ar Asiantau Teithio. Bwriad yr ymweliad oedd i adnabod y ffactorau sy'n denu cymaint o ymwelwyr i'r ardal hon. Cafwyd diwrnod heulog, braf i grwydro'r pentref a chwblhau eu tasgau. Mwynhau cinio yn yr haul yng Nhastell Dolbadarn, gan achub ar y cyfle i drafod ei hanes. Ymweliad sydyn a'r amgueddfa lechi wedyn cyn oedi yn y parc chwarae cyn dychwelyd yn boeth a blinedig i Dregarth.

Prosiect Llwybr Llechi

Wedyn ar fore Mercher y 24ain, daeth Anita Diamond i'n gweld gan ein bod yn rhan o'r prosiect Llwybr Llechi. Cawsom wybod am rai datblygiadau o ran y prosiect cyn rhoi nifer o eitemau yn y geocache arbennig a baratowyd. Yna ffwrdd a ni ar daith gerdded gyfrinachol i'w osod mewn man penodol. Cawsom dipyn o hwyl yn dewis safle addas a chliw i arwain pobl yno. Bydd mwy o fanylion ar safle we geocaching.com. Yn sicr fydd neb ohonom ni'n datgelu'r lleoliad!

Trip Glan Llyn

Roedd mwyafrif o blant blwyddyn 6 wedi mynychu Gwersyll Glan Llyn dros yr hanner tymor. Fe gawsant amser hwylus yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys bowlïo, dringo, canwïo, cyfrifiannu a llawer mwy.



Modurdy Central
Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

**Clwb Hanes Rachub
a Llanllechid**
Nos Fercher, Mehefin 28
am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.
Bydd adloniant gan
Blant Ysgol Llanllechid.
CROESO CYNNES!

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymwrwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

BYSUS
D. J. Owens
RHWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhlwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLIWDY 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Clwb Drama Crawia
yn cyflwyno
DAWNS DYFFRYN DERW
Sioe wreiddiol gan Angharad
Llwyd ac Ynyr Llwyd.
Yn Neuadd Ogwen Bethesda
ar 29 a 30 Mehefin



Gŵyl Gwenllian

Am y tro cyntaf eleni fe fydd Partneriaeth Ogwen , ar y cyd â Ras yr Iaith a Chlwb Mynydd Cymru yn trefnu dau ddigwyddiad i gofio’r Dywysoges Gwenllian, sef merch Llywelyn ein Llyw Olaf a’i wraig Elinor. Hi oedd unig ddisgynydd gyfreithlon Llywelyn ap Gruffydd ac yn dilyn llofruddiaeth ei thad a dienyddiaeth ei frawd Dafydd daeth Tywysogaeth Cymru i ben. Cludwyd Gwenllian i leiandy yn Sempringham lle bu

fyw ar hyd ei hoes hyd ei marwoleth ym mis Mehefin 1337. Cynhelir darlith ar Nos Wener 16 Mehefin yng Ngwesty'r Douglas am 7:30 gan Ieuan Wyn ar “Gwenllian y Dywysoges Goll”- mynediad am ddim, ac yna ar y Sadwrn canlynol, 17 Mehefin, taith i gopa Carnedd Gwenllian dan arweiniad Siân Shakespear, i gychwyn o faes parcio Pant Draeniog am 9:30 – cyswllt Siân 07890 613933.

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Ar dydd Sadwrn, 27 Mai, aeth criw y ffermwyr ifanc i Fferm Goetre, Efailnewydd i gystadlu yn Rali Flynyddol Clybiau Ffermwyr Ieuanc Eryri. Cymerodd yr aelodau ran mewn amryw o gystadlaethau – o osod blodau i dynnu rhaff. Daeth Beca Jackson i’r brig unwaith eto yn y lapio gwlan, a rwan bydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri yn y Sioe Fawr. Da iawn a phob lwc iddi hi! Daeth Glensi yn gyntaf am ysgrifennu mewn dull caligraffi. Daeth Beca yn ail mewn cystadleuaeth ffotograffiaeth ar y thema mynyddoedd, a’i chwaer Moli yn drydydd. Enillodd Gethin yr ail wobwr am ei lyfr trysorydd. Hefyd yn y barnu cyn y rali enillod Gethin am farnu ceffylau adran D dan 18.

Dim llawer o lwyddiant fel arall ond pawb wedi mwynhau y dydd a’r ddawns nos. Erbyn i’r Llais ddod o’r wasg byddwn wedi cynnal ein cyfarfod blynyddol a chynnal stodin yn Sioe Dyffryn Ogwen. Wedyn bydd yna seibiant dros yr haf cyn ail ddechrau ym mis Medi. Buaswn yn hoffi cymryd y cyfle i ddiolch i unrhyw un sydd wedi bod o help i’r clwb eleni mewn unrhyw ffordd, bach neu fawr. Diolch yn fawr iawn i chi. Os am fwy o wybodaeth am y ffermwyr ifanc cysylltwch a Swyddfa Ffermwyr Ifanc Eryri ar 01286 677513, neu os oes diddordeb mewn ymuno â ni, yna cysylltwch ar 07858264371. Mae croeso i unrhyw un rhwng yr oed 13-26 i ymuno â ni.

Iwan Harper



Nyth Y Gân

Tŷ Nain
(Tan-y-Bryn)

Dau gilbost cerrig cadarn
A safai wrth y tŷ,
A llawer iawn o droedio
Gan aml dramp a fu.

Ar ben y rhain gorweddai
Rhyw gerrig mân yn rhes
Wynebai oerni’r gaeaf
A’r haf a’i hynod wres.

Gosodwyd hwy mewn patrwm
Gan grwydriaid yno gynt
Yn arwydd i rai tebyg
A’u gwelent ar eu hynt.

Roedd neges go arbennig
Yn nhrefn y cerrig hyn,
Ac yno sawl cyfrinach
A gâi ei gwasgu’n dynn.

Yn Nhan-y-bryn yn gyson
Roedd arwydd hynod gain
O’r croeso gâi y trempyn
Bob amser gan fy nain.

Y Goriad
Y goriad roed dan garreg a’i gelu
O’r golwg un adeg;
Nid aeth mewn cymdogaeth deg
I unrhyw un yn anrheg.

Dant y Llew
Daw â’i dafod i dyfu, ac yna
Fe gawn y melynu,
Ac o hyn mae o’n gwynnu
Yno’n blaen yn belen blu.

Y Gân
Yn y geiriau rhagorol y carwn
Y curiad barddonol
A ledia’n adeiladol
Efo’r gân a mawr fu’r gôl.

Darluniau
Mae inni’r môr a’r mynydd a’r rheini
Sy’n rhannu eu llefydd;
A mwyn yw cael mannau cudd
O luniau glân, ysblennydd.

Dafydd Morris

Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwobr Etifeddiaeth Diana

Llongyfarchiadau mawr iawn i Elan Môn o'r Chwched Dosbarth am gael ei dewis yn un o enillwyr Gwobrau Diana. Roedd Elan yn un o'r 20 o enillwyr ar draws y byd i ennill un o'r gwobrau sy'n cael eu rhoi i bobl ifanc sydd wedi llwyddo i wneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau pobl ifanc eraill. Cafodd Elan fynd i Balas St. James yn Llundain ar gyfer y seremoni a chyflwynwyd y gwobrau gan y tywysogion William a Harry er cof am eu mam. Bu'n brofiad arbennig iawn i Elan.



Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Ella Baker am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth ysgrifennu rhyddiaith i ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11. Dyma'r trydydd tro yn olynol i ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen ennill y gystadleuaeth yma. Daeth Begw Evans yn drydydd yn yr un gystadleuaeth i ddisgyblion blwyddyn 8.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwydion Rhys am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth cyfansoddi cerddoriaeth i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9.

Llongyfarchiadau yn yr un modd i Ithel Temple Morris am gael dwy wobwr gyntaf yn y cystadlaethau 2D a 3D i ddisgyblion ag anghenion addysgiadol, ail am luniadu, a thrydydd am argraffu ar ffabrig. Ac yn olaf i Idwal ei frawd am ddod yn ail ar y gystadleuaeth gwaith creadigol 3D i ddisgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9.

Athletau

Llongyfarchiadau i Natalie Owen a Huw Davies bl.8 ar eu llwyddiannau ym Mhencampwriaeth Athletau Gogledd Cymru dan 15 yn Wrecsam yn ddiweddar. Llwyddodd Huw i ennill y fedal aur am daflu'r ddisgen a chafodd Natalie dair medal aur trwy ddod i'r brig yng nghystadlaethau'r ddisgen, pwysau a'r morthwyl! Mae'r ddau hefyd yn bencampwyr Ysgolion Eryri ac yn

mynd ymlaen i gynrychioli'r ardal ym mhencampwriaethau Cymru yng Nghaerdydd ar y 1af o Orffennaf. Pob lwc iddynt.



Natalie Owen a Huw Davies

Rygbi

Cymerodd tîm rygbi bechgyn dan 13 ran yn nhwrnamaint rygbi 7 bob ochr yr Urdd. Sgoriodd Huw Davies 6 cais, Tomos Hughes 2 gais a Noa Hughes un cais. Cystadlueaeth o safon uchel iawn a roedd y bechgyn wedi chwarae'n grêt.



Tîm rygbi bechgyn dan 13

Enillodd bechgyn blwyddyn 7 blât yn nhwrnamaint rygbi ysgolion Eryri, da iawn hogia!

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed dan 15 a gyrhaeddodd y ffeinal yng Nghwpan Gwynedd.

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Walliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

山田派系東流修交会空手道

KARATE-DO
Y Ffordd Waglaw

KARATE SHUKOKAI BETHESDA
Yn Plas Ffrancon

Dwy wers gynta am ddim

HUNAN AMDDIFFYN · HUNAN RYDER ·
FFITRWYDD · DISGYBLAETH · PARCEN ·
SHITORYU SHUKOKAI KARATE-DO
TRADDODIADOL

- * £35 y mis disgownt teuluol
- * Dim Cytundeb, Dim Cyreimod Debyd
- * Strwythur Graddio Traddodiadol
- * Hyfforddwr Gyda Danac Aelod o Dim Enillodd Gwpan y Byd 2007
- * Pennaeth Soko Yamada Sensei 10fed Dan o Japan

NOS FAWRTH A NOS IAU
7 TAN 8 O'R GLOCH I BLANT HYD AT 12 OED
8-9 O'R GLOCH I BLANT DROS 13 OED
AC OEDOLION

I SICRHAW EICH LLE YN Y CLWB:

FFON: 07595 361624
E-bost: shukokaiwales@icloud.com
YWB: www.shukokai-wales.com

POWIS NI AR FACEBOOK facebook.com/shukokainorthwales

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd


Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106	Ambech (01407) 831777	Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616	Pwllheli (01758) 703000	

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a rwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**GWASANAETH
GLANHAU HUGHES**

5 Pant Caerhun, Bangor, LL57 4DS (Y cwmni glanhau tu allan cyflawn)

Glanhau ffenestri: Golchi landeri, facsias a soffits.
Gwagio landeri gyda Sky Vacs a CCTV
Golchi 'meddal' - patios, "decking" a llwybrau
Golchi toeau ystafelloedd gwydr

Gofynnwch am Nicky ar 01248 355908 neu 07999 376250
pamela-stwnch@hotmail.co.uk

**Clwb Drama
Crawia**

Ar Fehefin 29 a 30 bydd Clwb Drama
Crawia yn llwyfannu sioe wreiddiol
gan Angharad Llwyd ac Ynwr Llwyd
yn Neuadd Ogwen Bethesda! Enw'r
sioe ydi *Dawns Dyffryn Derw*, ac mae'r
criw brwdfrydig wrthi'n brysur iawn
yn ymarfer a pharatoi at berfformiad
bythgofiadwy!

Mae Ysgol Dyffryn Derw wedi mynd
i edrych yn hen a blêr, ac mae angen
dipyn mwy na chôd o baent i'w hachub.
Os na fydd pethau'n gwella, mae'r
arolygwyr pwysig wedi dweud na fydd
dim dewis ond cau'r ysgol. Dewch i
wylïo brwydr y disgyblion i achub eu
hysgol drwy ddawns a chân, gyda help
un wrach fach arbennig ac ambell i drio
hudolus.

A fydd y disgyblion yn achub Ysgol
Dyffryn Derw? A fydd ffrindiau Ffion
yn darganfod mai gwrach ydi hi?
Pwy fydd yn ennill y gystadleuaeth
ddawnsio? Am ateb i'r holl gwestiynau,
dewch i weld sioe gyntaf Clwb Drama
Crawia 'Dawns Dyffryn Derw' yn
Neuadd Ogwen, Bethesda. A chofiwch,
efo mymryn bach o hud a lledrith, mae
unrhyw beth yn bosib!

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Brysiwch Wella

Cofion at Dr. Goronwy W. Owen,
Gernant, sydd yn yr ysbyty ar hyn o
bryd.

Cofion hefyd at bawb sydd dim yn dda
eu hiechyd.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr. Eric Roberts
a'r teulu, 59 Braichmelyn yn eu
profedigaeth o golli modryb a chefnider
yn Llanllechid.

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville
Hughes
600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan ☎ 601583

Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Jones, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu ei phenblwydd yn 50 oed ganol Mai. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod yn fawr iawn yn dathlu gyda'r teulu, Bethan. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Adref o'r ysbyty

Treuliodd Myfanwy Jones, Gwernydd, gyfnod byr yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond rydym yn falch iawn o'i gweld yn ei hól adref, ac o gwmpas ei phethau unwaith eto. Dymunwn adferiad llwyr a buan ichi, Myfanwy.

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Gareth Williams Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cyngori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Dathlu penblwydd

Yn ystod mis Mai dathlodd Tecwyn Hughes, Ffordd Gerlan, ei benblwydd yn 87 oed. Mae Tecwyn wedi treulio'r cyfan o'r 87 mlynedd yn byw yn yr un tŷ. Dyna ichi dipyn o gamp! Mae'n dal i grwydro'r ardal, ar droed ac yn ei gar. Llongyfarchiadau mawr ar y penblwydd, Tecwyn; rydym yn gobeithio'n fawr ichi fwynhau'r dathlu.

Brysiwch wella

Bu i Len a Megan Williams, Ffordd Gerlan, ill dau dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'r ddau bellach adref. Rydym yn gobeithio'n fawr eich bod yn teimlo'n well, a dymunwn adferiad llwyr i'r ddau ohonoch.

Dathlu'r 21ain

Rydym yn dymuno'r gorau i Glesni Haf Wyn Owen, Gwaen Gwial, ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 oed yn ystod mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr iti, Glesni, a phob hwyl i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Rydyn yn cydymdeimlo gydag Alun Thomas, Ffordd Gerlan, ac Yvonne a Simon Dignam, a'r plant, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli brawd-yng-nghyfraith ac ewythr, sef y diweddar Owen Parry, oedd yn trigo yn Llanfairpwll.

Profedigaeth

Estynnwn ein cydymdeimald efo Richard a Jên Temple Morris, a'r plant, Tan y Garth, yn eu profedigaeth o golli tad a thaid, sef y diweddar John Temple Morris, oedd yn trigo ym Maes Bleddyn

Damwain

Yn anffodus, cafodd Caren Brown, Ffordd Gerlan, ddamwain car bur gas ar ei ffordd adref o Gaerdydd yn ddiweddar. Yn y ddamwain torrodd Caren ei ffêr yn ddrwg, a bu raid iddi dreulio cyfnod yn cael triniaeth yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Mae hi bellach adref, ac ar ei baglau. Dymunwn adferiad buan iawn iti, Caren.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau mawr i blant yr ardal oedd yn aelodau o Gôr Ysgol Pen y Bryn a fu'n fuddugol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont-ar-Ogwr. Da iawn chi am y gamp hon. Rhagorol, wir!

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Jonathan Williams, Ciltrefnus, yn ei brofedigaeth o golli ei daid, y diweddar John Williams, gynt o Rachub.

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair

Meh. 18: Boreol Weddi
Meh. 25: Cymun Bendigaid
Gorff. 2: Gwasanaeth Teuluol
Gorff. 9: Cymun Bendigaid
Gorff 16: Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y.b.

Carem ddiolch i Mr. Gareth Oliver am glirio'r ysbwriel o fynwent St. Ann. Gwaith anodd a budr iawn! Buasem yn ddiolchgar felly pe bai pawb yn defnyddio'r binau pwrpasol bob amser, neu yn mynd a'r sbwriel adref i'w ail-gylchu.

Cofiw'n am bawb sy'n sal ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Damwain

Drwg oedd clywed bod Mrs. Dilys Williams, Tan y Bwlch, wedi syrthio. Bu yn Ysbyty Gwynedd ond erbyn hyn ym Mhlas Ogwen. Anfonwn ein cofion atoch.

Arholiadau

Pob lwc a dymuniadau gorau i bobl ifanc y pentref yn eu haroliadau eleni.

Clwb Ieuenctid

Hoffa Iola a Sioned ddiolch i bawb a gyfranodd tuag at y 'Bingo' Pasg. Diolch hefyd i bawb am gefnogi'r noson. Mae'r Clwb nawr ar gau tan mis Medi.

Hoffa Iola ddiolch i Sioned a holl aelodau'r Clwb am drefnu parti noson olaf, sef 'Baby Shower' iddi. Diolch hefyd am yr anrhegion.

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

Ysgol Llanllechid

Dymuniadau Da

Diolch a dymuniadau da i Dianne Jones oddi wrthym i gyd yn Ysgol Llanllechid.

Pob Lwc!

Dymuniadau da yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Taf Elai i Gwenno Beech, Lois ac Efa Jones yn ogystal â Chenai Chicanza, Mari Watcyn, Ffion Tipton, Hanna Jones a Seren Mai. Rydym yn falch iawn ohonoch gan eich bod yn ein cynrychioli ni i gyd yn yr Eisteddfod!

Ymweliad dosbarth Mrs Tegid â Gelli Gyffwrdd

Yn ddiweddar fel rhan o’u gwaith Gwyddoniaeth ar Grymoedd bu disgyblion blwyddyn 5 ar daith i Barc Hamdden Gelli Gyffwrdd ym Mhentir.

Y Weiren Wib

Tydi’n anfarwol fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn lle hyfryd sydd nepell oddi wrth gyfoeth o adnoddau naturiol! Bu’n brofiad gwych i’r disgyblion gerdded o’r ysgol i weld y Weiren Wib. Dan arweiniad gofalus Lliwen Jones, cawsom daith gerdded ddifyr yno ac yn ôl ar hyd peth o Lôn Las Ogwen. Dull arbennig o ddod i adnabod ein hardal leol.

Gwasnaeth Boreol

Diolch i’r Parchedig John Pritchard am ddod draw yn gyson i’r ysgol i gynnal gwasnaethau boreol.

Caerdydd

Y daith orau eto! Bythgofiadwy! Bendigedig! Dyna rai o eiriau disgyblion blwyddyn 6 wrth iddynt drafod eu hamser ar y daith breswyl i Gaerdydd. Unwaith eto,

mae gennym achos i fod yn falch iawn o’n disgyblion. Nid ar chwarae bach mae mynd â phlant ar daith i Gaerdydd, yn enwedig yn y dyddiau sydd ohoni, a rhaid eu canmol i’r cymylau am eu hymddygiad boneddigaidd, aeddfed, sy’n glod i’n staff gofalgar ac i chi’r rhieni. Diolch i Anti Wendy a Ms Leanne am drefnu’r daith ac i Mr Huw Jones am arwain gyda chymorth Mr Stephen Jones, Ms Nicola a Ms Angharad. Diolch yn fawr. Gobeithio eich bod i gyd yn cael cyfle i edrych ar ein gwefan. Teipiwch ysgollanllechid.org a chliciwch ar *albw*m ac fe welwch amrywiaeth o luniau!

Mabolgampau Bangor Ogwen

Llongyfarchiadau i’r canlynol ar eu llwyddiant ym mabolgampau’r Urdd:
Ras unigol 100m Bl 5 a 6.
Ras Unigol Bechgyn 100m Bl 5 a 6 – Jac Simone 3ydd
Ras Unigol Merched 100m Bl 5 a 6 – Ella Bassinger 2il
Ras Unigol 600m Bl 5 a 6 – Madeleine Sinfield 1af
Ras Gyfnewid Merched (4x 100m) Bl 5 a 6 – 1af
Naid Hir Merched Bl 5 a 6 – Madeleine Sinfield 3ydd
Taflu Pel Bechgyn Bl 5 a 6 – Thomas Baker 3ydd
Ras Unigol 600m Bl 3 a 4 – Ffion Tipton 3ydd
Naid Hir Merched Bl 3 a 4 – Mia Williams 3ydd

Paid Cyffwrdd Dweud!

Cafwyd sesiwn hynod o lwyddiannus am beryglon cyffuriau a gwahanol sylweddau gan Libby a Stuart yn neuadd yr ysgol a dysgwyd gwersi pwysig.

Llyfrgellydd

Braint oedd cael croesawu Nia Gruffydd o’r llyfrgell yng Nghaernarfon i ddarllen a chyflwyno storïau.

Gig Gwilym Bowen Rhys

Gan fod Michael Downey yn fyfyrwr yn Ysgol Llanllechid ar y funud, trefnodd syrpreis a hanner i ni yn ddiweddar! Braint oedd croesawu y talentog Gwilym Bowen Rhys i’r ysgol i berfformio i’n disgyblion – ac am berfformiadau a gawsom! Roedd hwn yn brynhawn a fydd yn aros yn y côf am amser maith; prynhawn llawn asbri a’r disgyblion yn ymuno i ganu’r hen ffefrynnau – Defaid William Morgan, Bys Meri Ann ac roedd hi’n werth clywed yr anthem genedlaethol yn cael ei chanu gydag arddeliad ar ddiwedd y prynhawn. Dyma ddywedodd Gwilym Bowen Rhys wrthym wrth adael:“Pleser oedd canu hefo’r plant,- mae nhw’n gantorion gwych ac angerddol! Gobeithio y caf y cyfle i ddychwelyd pan fyddaf yn byw dafliaid carreg i ffwrdd yn fuan!” Diolch i chi Syr! Gwerth chweil!

Dosbarth Ms Llinos Parry

Ni fuasai Anti Wendy wedi gallu trefnu gwell diwrnod i blant bach y Cyfnod Sylfaen i fynd ar drip i Pili Palas! Gyda’r haul yn tywynnu, roedd hen edrych ymlaen at gael gweld pa ryfeddodau fyddai yn ein disgwyl yno! Roedd y plantos wrth eu boddau’n arsylwi ar y gwahanol greaduriaid a’u cynefinoedd.

Seland Newydd

Braint oedd croesawu dau athro o Seland Newydd i Ysgol Llanllechid i gael rhannu arferion da ein hysgol gyda hwy.



Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Cael sbòrt wrth wneud 1 I Lawr efallai (4)
- 3 Materion ariannol (5)
- 7 Pan fydd yr heulwen yn diflannu (6)
- 8 Yng nghefn y ganolfan y mae dal yr un sy'n difwyno (6)
- 9 Un o'r deuddeg, --- --- Alpheus (4,3)
- 10 Sut i ddal iâr, yn ddiauhebol (4)
- 11 Y cyntaf mewn cyfres o gyfarfodydd neu berfformiadau (9)
- 16 Cyllell (4)
- 17 Wil neu Donald (7)
- 19 Lleuad rywsut yn troi a throi i ti (6)
- 20 Eich dogfen olaf ! (6)
- 21 Un fawr yn Llundain i w'r Fictoria, ac un fach enwog ym Mynytho ! (5)
- 22 Hoci marchogion (4)

I LAWR

- 1 Teithio ar ddŵr (6)
- 2 Yng nghanol (5)
- 3 I gofio'r dewrion a laddwyd (5)
- 4 Pentref ym Môn ac "enw arall" Deiniolen (7)
- 5 Bara menyn Shakespeare (6)
- 6 Dim gweiddi wrth y ddwy wal (6)
- 12 Achub, neu i'r gwrthwyneb, taflu i ffwrdd (7)
- 13 Mae Job yn enwog amdano; peidiwch chi a'i golli (6)
- 14 Gwiriwch yr enwa cyn hedfan (6)
- 15 Swnio fel rhoi mwythau efo'ch dwy law (6)
- 17 Tlysion (5)
- 18 Anfonwyd nhw 'dros y môr' yn 1985 i helpu i fwydo'r byd (5)

	1		2			3		4		5	
					6						
7						8					
	9							10			
		11	12			13					
	14									15	
16					17			18			
19						20					
	21						22				

ATEBION CROESAIR MAI 2017

AR DRAWS 1 Llaca, 3 Ahab, 9 Larwm, 10 I'r Fferyllfa, 11 Sidan, 12 Felin,Malu, 15 Wmbredd/Wmbreth, 17 Monaco, 19 Gwybodaeth, 21 Popty, 23 Dyneiddiwr, 24 Berwi, 25 Oeri, 26 Edith

I LAWR 1 Lleiafswm 2 Cyffelybu, 4 Holliach, 5 Blasuso, 6 Crud, 7 Amen, 8 Crin, 13 Llafariad,14 Torth Frith, 16 Ergydio, 18 Cynnar, 20 Orig, 21 Pobi, 22 Porth

Nifer fechan o wallau y tro hwn. Cafwyd 'lleaifswm' yn lle 'lleiafswm', 'at fferyllfa' yn lle 'i'r fferyllfa'. Y cynnig anghywir 'gyrrwr' yn lle 'cynnar' a 'darlithiwr' yn lle 'dyneiddiwr'. Hefyd cafwyd 'gran' yn hytrach na 'crin'. Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion cywir: Catherine Boulting, Elfed Evans, Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Huw Pritchard ac Angharad Watkins, Caerdydd; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Donna Coleby, Penwortham; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Wyn Griffith, Abergele; Lowri Evans, Llanllechid; Jean Hughes, Talybont; Jean Vaughan Jones, Talybont.

Yr ymgais gywir gyntaf o'r het i ennill y wobr oedd cynnig Barbara Jones, 1 Dolhelyg, Talybont, Bangor. Da iawn chi.

Atebion erbyn 5 Gorffennaf, 2017 i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Atebion erbyn 5 Gorffennaf, 2017 i 'Croesair Mehefin'

Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853

Colli Cymydog
Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Ifan Hughes, Tŷ Cerrig, ar y 10ed o fis Mai. Ni fu’n dda ei iechyd ers rhai misoedd.

Yr oedd Ifan yn grefftwr ac yn beiriannydd penigamp a allai droi ei law at bob peth bron. Bu canmoliaeth fawr iddo lle bynnag y gweithiai. Yr oedd hefyd yn gymwynaswr a feddai ar lawer o wahanol diddordebau.

Tystiai’r dyrfa fawr a ddaeth i ffarwelio âg ef i’r Amlosgfa i’w boblogrwydd a’i hynawsedd.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Louie, ei wraig, Judy ei ferch, y meibion, Gareth a Michael, a’r teulu oll yn eu galar.

Brysiwch wella!
Mae Mrs Thelma Williams, 68. Bro Emrys, wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn wellhâd llwyr a buan iddi.

Anrhydedd
Ar y 14eg o fis Mai, bu Claire Butterfield yn darlithio ym Mharec Bletchley yn Lloegr. Teitl y ddarlith, o’i gyfeithu, oedd ‘Bywyd Bill Tutte a’i gyfraniad tuag at dorri’r Lorenz Cypher’. Roedd dyddiad y ddarlith yn cydfynd â chanmlwyddiant geni Bill Tutte.

Mae Claire yn ferch i Keith ac Yvonne Davies, Meadowsides, ond sydd bellach yn byw ym Mhenmaenmawr gyda’i gŵr, Andy, a’i mab bach, Asa.

Llongyfarchiadau mawr iti, Claire, ar yr anrhydedd yma.

Babi newydd
Yn oriau mân yr 22ain o fis Mai, ganwyd merch fach, Cadi Enlli, i Tracey a Dylan, 14. Dolhelyg. Mae Eleri a Deion wrth eu bodd efo’i chwaer fach. Mae Cadi yn rhannu’r un penblwydd â’i Nain, y diweddar annwyl Muriel Williams, Glanffrydilas.

Diolch!
Dymuna Alwenna, 1 Lôn Ddŵr, ddiolch yn fawr am y dymuniadau da, y cardiau a’r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd arbennig yn ystod mis Mai. Diolch yn ogystal am y gwmniaeth dda a fu o gymorth mawr iddi.

Eglwys St. Cross
Ar y trydydd Sul o’r mis, ymunodd eglwysi Bro Ogwen yn eglwys St Mair, Tregarth, mewn gwasanaeth yr Offeren, gyda’r Parchedig John Mathews yn arwain a Martin Lewis, Offeiriad Lleyg, yn traddodi’r bregeth. Geraint Gill oedd yn cyfeilio. Diolch o galon i’r aelodau am y croeso a dderbyniom, ac am y banad yn dilyn y gwasanaeth.

Cynhelir Tê Mefus blynyddol yr eglwys, yn yr Ysgoldy, ar

ddydd Sadwrn y 17eg o Fehefin am 3 o’r gloch. Croeso cynnes i bawb!

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af, cynhelir Garddwest y dair eglwys yn Ficerdy Pentir rhwng 1 a 4 o’r gloch. Dewch yn llw!

Capel Bethlehem
Oedfaon
Mehefin 18: Parchg. Emlyn Richards, Cemaes
Mehefin 25: Gweinidog. Gorff. 02: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.
Gorff. 09: Gweinidog (Cymun)
Gorff. 16: Gweinidog.
Oedfaon am 2.00 o’r gloch oni nodir yn wahanol.

Yr Ysgol Sul
Yn dilyn y Gymanfa ar 21 Mai, mae plant yr Ysgol Sul yn cael gwyliau tan ddechrau Medi pryd yr ail agorir ein drysau, gan fawr obeithio y bydd digon o ddiddordeb erbyn hynny.

Ysbyty
Anfonwn ein cofion at ddwy aelod sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar sef Mrs. Augusta Williams a Miss Dilys Williams.

Te Mefus
Cynhelir ein Te Mefus blynyddol ar nos Fercher, 28 Mehefin, am 7 o’r gloch. Edrychwn ymlaen at eich croesawu eto eleni.

武術 健身 強身 強體 強心 強志 強德 強智 強勇 強毅 強誠 強信 強義 強禮 強廉 強恥 強孝 強悌 強忠 強節 強廉 強恥 強孝 強悌 強忠 強節

Wu Shu Kwan®
Chinese Kickboxing
The Ultimate Art of Fitness & Self-Defence

E-bost: info@wushukwan.com Neges Destun: 07835 244398 Ffôn: 020 8749 8537

Gwefan: www.wushukwan.com Gweplyfr: Wu Shu Kwan - Official / Trydar: @WuShuKwan

中國 功夫 身心 并 道 技 兼 揚

MAE EIN SYSTEM UNIGRYW O KUNG FU TRADDODIADOL AM EICH HELPU GDYA:

- GWELLA FFITRWYDD
- COLLI PWYSAU
- EDRYCH YN DDA
- HUNAN HYDER
- CYRARFOD FFRINDIAU NEWYDD
- TRECHU OFN
- RHEOLI STRAEN
- DWEUD HWYL-FAWR WRTH FWLIO
- GWIREDDU BREUDDWYD YM MYD Y CREFFTAU YMLED

Croeso cynnes i bawb yn enwedig rhai di-brofiad
Am fwy o fanylion neu os am roi cynnig arni, dewch draw i'r dosbarth yn

NEUADD OGWEN
Stryd Fawr, Bethesda

CANOLFAN TREGARTH
Hon Stesion, Tregarth ger Bangor, Gwynedd, G. Cymru - Hyfforddwr -

Prif Hyfforddwr - **IAKE FITZPATRICK**
4ydd Gradd Gwregus Du

Is-hyfforddwr - **ELENA FITZPATRICK**
3ydd Gradd Gwregus Du

Y FFRDD HAWSA A'R MWYAF EFFEITHIOL I WELLA EICH:
Cryfder • Cyflymdra • Ystywythder • Hyblygrwydd • Cydbwysedd • Cydlynad a Symudedd y Corff

DIM TALIADAU MISOL DRUD - Symudol: 07769 584646



Wu Shu Kwan

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr
11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's
Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yn ystod mis Mai bu aelodau’r gangen yn brysur yn canfasio o ddrws i ddrws, telefonio, dosrannu taflenni ac yn yn y blaen oherwydd yr etholiad cyffredinol ar Fehefin yr 8fed. Daeth yr ymgeisydd Llafur (Mary Gwen, merch fferm o Sir Feirionydd) i’r dyffryn deirgwaith yn ystod cyfnod byr yr etholiad, yn bennaf i siarad efo’r etholwyr.

Llongyfarchwn Pearl Evans, Rachub am gael ei hethol yn is gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda am y flwyddyn 2017-18.

Er y bydd Gwen Griffith, Mynydd Llandygai’n parhau fel llywodraethwr Ysgol Dyffryn Ogwen tan ddiwedd yr haf, y mae hi wedi gorffen ei chyfnod fel cynghorydd sirol. Diolchwn iddi am

ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth brwdfrydig, gweithgar a llwyddiannus ar Gyngor Arfon, Cyngor Gwynedd a llu a sefydliadau eraill (e.e. Mantell Gwynedd); a dymunwn iechyd da iddi.

Cynhelir cyfarfod blynyddol aelodau’r gangen ar y Nos Iau gyntaf yn mis Gorffennaf (y 6ed) am 7:30 p.m. yng Nghanolfan Cefnfaes.

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas ☎ 01248 355336

Merched y Wawr Cyfarfod Mai 9fed

Croesawyd ni i'r cyfarfod gan Linda a chawsom fwy o fanylion am ddigwyddiadau'r dathllu 50. Atgoffwyd ni hefyd am ffair haf y pwyllgor anabl. Mis nesaf rydym yn mynd am daith ddirgel ac Annes sy'n trefnu, ond rydym yn gwybod fod y daith yn gorffen yn "Tavern on the Bay" yn Nhraeth Coch ac i gychwyn o Rhiwlas am hanner wedi pump.

Ein gwetai oedd Susan o Gaernarfon sy'n drefnydd blodau adnabyddus yn yr ardal ac yn cynnal dosbarthiadau hefyd. Graddiodd fel maint fesurydd i ddechrau ond blodau oedd yn mynd â'i bryd a newidiodd ei gyrfa gan ddilyn cyrsiau yn ymwneud â gosod blodau. Plwysieisiodd fod prynu blodau da yn bwysig, eu paratoi yn ofalus a newid y dŵr bob rhyw ddeuddydd. Cyflwynodd lawer o syniadau inni, trefniadau cyfoes a'r traddodiadol mewn ffordd hynod o hwyliog. Ar y diwedd roedd yn gwerthu'r gosodiadau am bris rhesymol iawn. Diolchwyd iddi ar ein rhan gan Linda ac roedd pawb o'r farn inni gael noson arbennig o dda. Diolch i Carys a Linda am drefnu'r baned.

Diolch

Diolch i Hefin Williams am ei wasanaeth ffyddlon fel ein Cynghorydd Sirol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn yr un modd dymunir yn dda i'r Cynghorydd newydd, Elwyn Jones.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Steve Eaves a Viola ar enedigaeth merch, Maia, chwaer fach i Caio. Braf hefyd yw deall fod Lleuwen adref o Lydaw. Mae sawl prosiect ar y gweill ganddi gan gynnwys cyngerdd yn Theatr Felinfach pryd y bydd yn canu nifer o ganeuon newydd.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Glyn a Lliwen Jones. Ty'n Gadlas. Bu farw John Williams, Bontnewydd, taid Lliwen. Un o Rhiwlas ydoedd, byw i ddechrau ym Mhenffridd ac yna symud i Bro Rhiwen, ac wedi priodi symud i Sling. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

Dathlu penblwydd arbennig

Yn ddiweddar dathlodd Dilys Parry, Bryntirion, benblwydd arbennig a hefyd Ieuan Hughes. Goleufryn. Gobeithio i'r ddau ohonoch fwynhau y dathlu! Eleni eto braf oedd gweld Elliw Mai, merch Ieuan a Donna yn arwain o'r llwyfan yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Ar y radio a'r teledu

Rhai wythnosau 'nôl cafwyd sgwrs ddiddorol ar y radio rhwng Aled Hughes ac Alwyn Ifans, Rhostryfan, ond Bro Rhiwen yn wreiddiol ac mae ei ferch, Eysyllt yn byw yn y cartref ers tro. Doedd y ddau ddim yn y stiwdio ym Mangor ond yn hytrach roeddent ar draeth Aberogwen mewn cuddfan adar ac Alwyn yn addysgu Aled Hughes i bob pwrpas. Eglurodd fod yn rhaid bod yn amyneddgar a gofalu fod y ffôn fach ddim yn canu pan yn gwyllo adar. Dwi ddim yn meddwl y bydd y cyflwynydd radio'n rhuthro'n fuan i guddfan adar ond roedd brwdfrydedd Alwyn yn amlwg.

Yn ystod wythnos arbennig Salwch Meddwl roedd rhaglen am Matt Johnson, un a fu ar y cyfryngau yn cyflwyno rhaglenni Cymraeg a Saesneg. Yn ystod y rhaglen ymwelodd ag Ysgol Plasmawr, Caerdydd, i drafod sut mae'r ysgol yn delio â phroblemau y disgyblion. Catrin, Erw Wen, Waun Pentir gynt oedd yn cael ei chyfweld ganddo. Mae'n Bennaeth Cynorthwyol/Lles a Chynhwysiant ac fe welsom sut roedd yn trafod materion gyda grŵp o fechgyn. Mae'n debyg fod genethod ar y cyfan yn barotach i drafod eu problemau. Roedd yn gyfweiliad diddorol iawn gyda

Catrin. Eglurodd fel roedd y staff bugeiliol yn delio'n ddyddiol â phroblemau, llawer wedi'u achosi gan yr amrywiol gyfryngau cymdeithasol.

Yn yr Ysbyty

Y mae Heulwen Evans, Bro Rhiwen a Phlas Pengwaith yn Ysbyty Gwynedd, gobeithiwn eich bod yn gwella. Y mae Richard Williams, Caeau Gleision, adref wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Mai 24: Buom yn trafod rhaglen Mis Mehefin, y manylion i'w cadarnhau yn ein cyfarfod nesaf. Ann a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned a chawsom ddarn o deisen penblwydd Dilys. Roedd yn hynod o flasus hefyd. Gareth enillodd y raffl.

Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a gyfrannodd i'r apêl eleni. Diolch i Nia Jones a Dilys Parry am helpu gyda'r casglu, roedd y cyfanswm yn £317.20. Beth am helpu gyda'r casglu y flwyddyn nesaf? Mae'n sicr yn achos teilwng iawn.

Gair i Ddiolch

Dymuna Elwyn, Fferm Tan y Weirglodd ddiolch o galon am y croeso a'r gefnogaeth dderbyniodd gan drigolion Rhiwlas wrth iddo gael ei ethol yn Gynghorydd Sir ddechrau Mai. Diolch i Hefin Williams, am ei ymgyrchiad teg a gonest yntau Bydd yn fraint cael cynrychioli y pentref ynghyd a Penisarwaun a Brynrefail ar Cyngor Gwynedd am y pum mlynedd nesaf.

Os am gysylltu naill a'i galwch heibio, ffoniwch, 01248 354264 / 07936545645 neu e-bostiwch cynghorydd.elwynjones@gwynedd.llyw.cymru.

Canu i Godi Arian at Achosion Da

Mae Robert Temple Morris (Bob Temp i'w ffrindiau), Bryntirion, Bethesda, sydd yn 64 mlwydd oed ac yn dioddef o'r cancer, wedi bod yn brysur ofnadwy dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf.

Mae Bob â'i ffrindiau wedi cynhyrchu cryno ddisg, ac wedi cynnal noson i lawnsio'r CD yng Nghlwb Criced Bethesda. Roedd y lle yn orlawn, ac fe godwyd swm o £677.90 tuag at elusen Awyr Las a Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Ymdrech ardderchog ganddo sy'n haeddu ein hedmygedd! Llongyfarchiadau!

Ond nid dyna'r cyfan, oherwydd bydd "Bob Temp" yn canu gyda Mike Peters yng Ngŵyl "Snowdon Rocks" ar 24 a 25 Mehefin.

Dyma lun o Bob a'r Band yn chwarae yn y Clwb Criced.



Pentir

Eglwys St. Cedol

Garddwest

Cynhalwyd ein Garddwest flynyddol yng Ngardd Y Ficerdy, Pentir, ar bnawn Sadwrn, 27 Mai. Roedd amryw stondinau. Roedd cystadleuaeth arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Coffa Leslie Crocombe, yr enillwyr oedd, Dosbarth Meithrin oedd Tyler Jones, Dosbarth Derbyn oedd Jasmine Dodd, Blwyddyn 1 a 2 oedd Maddie Jones a Blwyddyn 3 – 6 oedd Sophie Pawson. Roedd cystadleuaeth i oedolion sef creu arddangosfa o flodau mewn cwpan, yr enillydd oedd Nia. Roedd gwahanol raffl sef, Raff Teisen ag Raffl Llun a oedd yn roddedig gan Alan Jones, Waun Wen, ar ennillwyr oedd: Raffl Llun: Terry Jones, Caernarfon, Raffl Teisen: Dorothy, Talybont. Ar ddiwedd prynhawn llwyddianus a fwynhawyd gan lawer diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Yn dilyn yr arddwest cafwyd pryd blasus yn Tafarn Y Faenol, Pentir.

Profedigaeth

Ar 8fed o Fai yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Pamela Jones, Fron Olau, Llanddeiniolen. Cydymdeilwn gyda'i gwr Gwyn a'i chwaer Catherine ar teulu yn ei profedigaeth. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i chwi fel teulu.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at Eira, Mai, Bill a Vick, nid ydynt yn dda ei hiechyd ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau i'r pedwar ohonoch

Caws a Gwin

Bydd Noson o Gaws a Gwin yn cael ei chynnal yn Y Ganolfan Glasinfryn ar Nos Sadwrn 24 Mehefin am 6.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Cerdd a Llên

Bydd noson o Cerdd a Llen yn cael ei chynnal yn Eglwys St. Cedol, Pentir Nos Wener 18 Awst am 7yh. ymusg yr eitemau i'n diddanu bydd artistiaed lleol, gyda Sharon yn chwarae'r Organ a Sioned yn chwarae darnau i'r clarinet, ond yn fwy prin darnau o gerddoriaeth i Clarinet bass ac organ, hefyd bydd grwp lleol yn chwarae/a canu'r Ukelele, bydd ambell i eitem arall i'n diddanu yn ystod yr noson. Bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y noson. Mae croeso cynnes i bawb

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni.
18.6.17 Cymun Bendigaidd
25.6.17 Boreol Weddi
02.7.17 Cymun Pawb
09.7.17 Boreol Weddi
16.7.17 Cymun Bendigaidd
23.7.17 Boreol Weddi

Teyrnged i Cyril Ward

Teyrnged i Cyril Ward, Bodfaio, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, a hunodd ar 17 Ionawr 2017 yn 81 mlwydd oed; darllenwyd gan Delyth Ross, merch Eluned Owen, partner Cyril.

Mae'n fraint gen i gael sefyll yma o'ch blaen chi i gael talu teyrnged i Cyril. Yn anffodus nid yw Desmond Ward, sef Yncl Cyril, yn gallu bod hefo ni heddiw ond rydym yn meddwl amdano. Roedd Cyril yn ŵr boneddigaidd dros ben, yn ddyn preifat, annibynnol ac annwyl iawn. Wedi ei fagu ym Methesda, roedd wrth ei fodd yn cerdded y mynyddoedd a'r brynau - roedd wrth ei fodd hefo natur - yn gwybod enwau pob mynydd yn yr ardal, pob bryn, afon a llyn yn Eryri. Roedd Cyril yn ddyn gwybodus iawn, ei daid oedd wedi dysgu enwau planhigion a blodau iddo fel plentyn wrth gerdded y brynau; blynyddoedd yn ddiweddarach cafodd hyd i awyren a oedd wedi dod i lawr yn y mynyddoedd yn ystod cyfnod y rhyfel - roedd hon yn un o'i hoff storiâu. Stori arall oedd o'n hoffi adrodd oedd am ei dad yn cael rhan yn yr hen gyfres teledu "William Tell" a ffilmwyd yn Eryri, ei dad - Fredrick Ward - oedd yn cymryd lle'r actor Lamburger Geslor yn unrhyw ran o ffilmio tu allan gan nad oedd yr actor eisiau gwneud unrhyw waith tu allan i'r stiwdio. Daeth Mike, cefnder Cyril, o hyd i gopi o'r gyfres a byddai Cyril wrth ei fodd yn ei wyllo - bob amser yn rhoi "ffast forward" i'r rhannau tu allan o'i dad yn naturiol!

Gwnaeth Cyril ei Wasanaeth Cenedlaethol yn y fyddin yn yr Almaen, wedyn aeth i'r Coleg Normal a dod yn athro celf a chrochenwaith yn gyntaf yn Lerpwl ac wedyn yn Ysgol Gyfun Llangefni - roedd wrth ei fodd yn siarad am ei brofiadau fel athro - yn ôl yr hanes roedd yn athro reit strict ... ond yn uchel iawn ei barch bob amser - popeth yn gorfod cael ei wneud yn iawn fel y gallwch ddychmygu! Daeth yn ôl i'r ardal a phriodi ei annwyl wraig Elizabeth, a byw yn hapus am

flynyddoedd yn eu cartref yn Llangaffo, y ddau wrth eu bodd hefo'u garddio a mynd ar wyliau dramor sawl gwaith. Roeddynt hefyd yn rhedeg gwely a brecwast am flynyddoedd ac roeddynt nhw mor groesawus roedd pobl yn dod yn ôl atynt flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Ar ôl iddo golli Elizabeth daeth Cyril yn ôl i fyw yn ei hen gartref yn Hen Barc, adeiladu byngalo o'i ddyluniad ei hun - roedd yn meddwl y byd o Bodfaio - a chychwynnodd bennod arall o'i fywyd ym Methesda. Fe greodd ardd hyfryd yno a bu'n treulio oriau yn yr ystafell haul yn peintio ei hoff dirluniau. Roedd ganddo nifer o ddiddordebau, ei arlunio yn enwedig oedd yn rhoi llawer o bleser iddo - roedd o'n meddwl y byd o bob llun a greodd. Roedd Cyril mor falch ei fod wedi cael arddangos rhai o'i luniau yn yr Academi Celfyddydau Frenhinol. Roedd yn cadw'n brysur gyda'i grochenwaith, garddio, adeiladu awyrennau model, pysgota, cerdded a beicio - yn wir roedd yn gallu troi ei law at unrhyw beth. Ac roedd Cyril yn berffeithydd ym mhob dim. Un o'i hoff bethau oedd mynd ar ei wyliau. Cafodd mam a Cyril lawer o wyliau hapus - fel oedd mam yn dweud, pan oedd an nhw'n eistedd ar y bws a chychwyn y daith bydda'n dweud bob amser "reit da ni ar ein holidides!". Rydym mor falch eu bod wedi cael amseroedd braf gyda'i gilydd

'Doedd y flwyddyn ddiwethaf ddim yn un yn hawdd i Cyril, ond roedd yn dygymod â'i sefyllfa bob amser a gwên ar ei wyneb, byth yn cwyno, a gwneud y gorau o'i sefyllfa a gwerthfawrogi bob dim. Mae'n golled fawr i ni gyd ar ei ôl o; ond heddiw wrth gofio amdano diolchwn am gael adnabod Cyril, y dyn arbennig yma - ac am gael rhannu ei fywyd - diolch amdano a chysgwch yn dawl Cyril bach, byth yn angof, byddwch yn ein calonnau am byth.

(Mae'r Llais yn falch o gael cynnwys y deyrnged hon ac yn ymddiheuro am yr oedi cyn ei chyhoeddi.)

Rhaglen Eisteddfod y Plant 1920

(a gyhoeddwyd yn y Llais yn rhifyn mis Mai) Diolchwn i Mrs. Gwen Davies, Tanysgafell, am roi benthyg y rhaglen i ni ac ymddiheurn iddi am y camgymeriad.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

Ysgol Pen-y-bryn

Diffodd y Sêr

Daeth Haf Llewelyn i siarad gyda phlant blwyddyn 5 a 6 fel rhan o’u gwaith hanes ar Hedd Wyn. Mae’r dosbarthiadau wedi bod yn darllen Diffodd y Sêr ac wedi ysgrifennu llythyrau gwerth chweil gan Ellis Humphrey Evans o’r ffosydd i’w deulu. Difyr oedd clywed am y gwaith ymchwil oedd Haf wedi’i wneud er mwyn ysgrifennu’r nofel a chael clywed beth oedd hanes brodyr a chwiorydd Ellis. Yn wir, bydd hyn yn help mawr pan fyddwn ni’n parhau gyda’r gwaith. Diolch o galon Haf am ddod atom.

Mabolgampau’r Urdd

Ar fore Iau a oedd gyda’r brafaf a’r poethaf o’r flwyddyn, aeth tîm o ddau ddeg dau o blant Pen-y-bryn i gystadlu ym mabolgampau cylch yr Urdd ar drac athletau Treborth. Cafwyd cystadlu brwd a daeth nifer dda ohonynt yn gyntaf, ail neu’n drydydd yn eu cystadlaethau.



Llongyfarchiadau mawr i bob un o’r tîm a phob llwyddiant i’r rhai sy’n mynd drwodd i fabolgampau’r Sir, eto yn Nhreborth, ar 13 Mehefin.

Profion Cenedlaethol

Da iawn i bawb yn yr ysgol am gwblhau’r profion cenedlaethol darllen a rhifedd. Bu pob un yn trio’u gorau er mwyn cwblhau’r tasgau – da iawn chi, blant!



James Griffiths yn cofio ymweliad Seindorf Notzingen

Deugain mlynedd yn ôl cafwyd digwyddiad arbennig iawn yn Nyffryn Ogwen sef ymweliad Seindorf Notzingen o dalaith Baden-Württemberg yn Ne yr Almaen. Fe ddaeth hyn i fod oherwydd fod Côr Meibion y Penrhyn bryd hynny yn awyddus i sefydlu perthynas â chôr o America oedd wedi dangos diddordeb, a hynny drwy asiantaeth yn Llundain oedd yn arbenigo yn y math yna o beth. Ta waeth, am rhyw reswm syrthiodd y syniad drwodd ac fe gynigiodd yr asiantaeth ymweliad cyffelyb gan seindorf o’r Almaen oedd yn awyddus i ddod i Gymru. Aethpwyd ati ar unwaith i gysylltu â’r seindorf sef Seindorf pentref Notzingen. Ysgrifennydd y Côr bryd hynny oedd y diweddar T. Caeron Roberts o Dregarth a’r Cadeirydd oedd y diweddar Harry Roberts Bethesda, cymeriad ffraeth tu hwnt ac un fu yn gyfeillgar iawn â mi ar hyd y blynyddoedd y bum yn gyfeilydd Côr y Penrhyn (1970-1987). Cafwyd sawl pyllgor yn nhŷ Caeron i drefnu ymweliad y seindorf, ac o’r diwedd ym Mehefin 1977, daeth y diwrnod I’w croesawu. Cofiaf yn iawn sefyll hefo criw mawr o aelodau’r Côr â’u teuluoedd yn y Maes Parcio ym

Methesda pan ddaeth y bws mawr, sef dau yn sownd yn ei gilydd i wneud un, fel pry genwair hir, ar hyd y ffordd heibio garej Purple Motors i’r Maes Parcio. Dosbarthwyd y teuluoedd o Notzingen ymysg teuluoedd y Côr i aros gyda hwy am yr wythnos - a dyna ddechrau wythnos o weithgareddau hynod yn yr ardal a hefyd llawer o hwyl ieithyddol yng nghartrefi Dyffryn Ogwen oherwydd ychydig iawn o’r Almaenwyr allai siarad Saesneg a llai fyth o’r Dyffryn yn gallu parhau yn yr Almaeneg. Cafwyd sawl stori ddoniol am bobl yn gwneud stumiau i geisio gwybod beth hoffai’r cyfeillion o Notzingen gael i frecwast ac yn y blaen. Daeth nifer fawr o’r Almaenwyr yn gyfeillion agos iawn gydag aelodau’r Côr, cyfeillgarwch sydd wedi parhau ar draws y blynyddoedd ac yn dal i wneud hynny. Cafwyd cyngherddau ym Methesda ac



Roland Wyn Jones (chwith) a James Griffiths (dde)

yn Eglwys Gadeiriol Bangor, a chofiaf gychwyn y cyngerdd drwy chwarae anthem genedlaethol Yr Almaen ar yr organ sef yr alaw fawreddog honno gan Josef Haydn, a phob un o’r Almaenwyr yn sefyll yn syth ac ambell un gyda deigr yn amlwg iawn. Cafwyd ymweliadau â Sir Fôn, Caernarfon a sawl lle arall ond yn fuan iawn daeth yr wythnos fythgofiadwy honno i ben, ond yr oedd y Côr i ymweld â Notzingen ym mis Awst a dyna fwy o baratoi ar gyfer hynny. Dyma y tro cyntaf i Gôr y Penrhyn fynd ar daith dramor ers ailffurfio yn 1935. Ar y ffordd i Notzingen galwyd yn Bonn i ganu – Bonn, yn 1977 oedd prif ddinas Gorllewin yr Almaen pan oedd dwy ran i’r wlad, sef Gorllewin yr Almaen a gwlad gomiwnyddol Dwyrain yr Almaen. Un perfformiad cofiadwy oedd gwasanaeth y cymun yn Eglwys Gadeiriol Bonn a minnau yn cael y fraint o gyfeilio ar organ fawr y Gadeirlan tra ‘roedd y Côr yn canu Salm 23 gan Schubert, Llanfair, trefniant Mansel Thomas a sawl darn arall yn ystod y gwasanaeth. Y mae gennyf recordiad a wnaethpwyd o hyn, ac er mor sâl oedd y cynhyrchiad fe ddaw safon uchel y canu drwodd yn amlwg iawn o dan arweiniad medrus Rowland Wyn Jones. Aethpwyd ymlaen i Notzingen ac yno cawsom groeso tywysogaidd gan y ffrindiau o’r pentref ac fe gafwyd wythnos fythgofiadwy yn eu mysg. A dyna ond un ymweliad wnaeth y Côr i Notzingen ar draws y blynyddoedd. Y mae’n anodd iawn credu fod blynyddoedd wedi hedfan ers y dyddiau difyr hynny ond fe erys yr atgofion, ac yn sicr fe erys y cyfeillgarwch a sefydlwyd ddeugain mlynedd yn ôl.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Gwaith gwella Bro Syr Ifor
Rhwyng 2015-2019 bydd cymdeithas dai Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) yn buddsoddi £30 miliwn i wella cyflwr cartrefi eu tenantiaid. Mae hyn yn cynnwys prosiect i osod llwybrau a ffensys newydd ar draws y sir.

Cwmni lleol o Trawsfynydd, GH James, sydd wedi bod yn cyflawni'r gwaith ar ran CCG, ac yn ddiweddar mae nhw wedi bod yn gweithio ar ein stad Bro Syr Ifor, Tregarth. Rydym wedi buddsoddi £70,000 i wella edrychiad y stad, yn cynnwys gosod llwybrau a grisiau newydd, trwsio waliau, gwaith ar y draeniau ac ailblannu.

Fel rhan o fudd cymunedol cytundeb GH James mae hen fainc ar y stad hefyd wedi cael ei thrwsio a'i ailbeintio i'r trigolion lleol cael mwynhau'r ardal cymunedol ar ei newydd wedd!



(Chwith i'r dde) Huw James a Bryn Jones o gwmni GH James, ein tenant Kristen Davies o Bro Syr Ifor a Steven Williams a Raymond Hughes o CCG.

Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Mai

24	Emlyn Thomas	£15
30	Muriel Williams	£10
21	Ann Davies	£5

Torri Gwallt at Achos Da
(gan Ceri Lois Owen, 27 Bro Syr Ifor – 10 oed)
Dwi wedi cael gwallt hir ers dipyn o amser! Penderfynais ei dyfu dipyn mwy a'i dorri i gyfrannu i “The Little Princess Trust”. Roedd angen o leia’ 7 modfedd i gyfrannu! Mae hwn yn elusen sydd yn gwneud wigiau i blant sydd yn cael triniaeth at y cancr. Mi ês i siop trin gwallt HQ ym Mangor, ac mi wnaethon nhw wahanu fy ngwallt yn 4 rhan a'u plethu yn barod i'w dorri. Ar ôl ei



dorri, ei roi o mewn bag a'i bostio. Mae fy ngwallt yn gwta fel “bob”, ac yn teimlo lot gwahanol!

- Eglwys y Santes Fair**

Gwasanaethau
Mehefin 18: Boreol Weddi
Mehefin 25: Cymun Bendigaid
Gorffennaf 2: Boreol Weddi
Gorffennaf 9: CymunB
Gorffennaf 16: Boreol Weddi

Pob Gwasanaeth yn dechrau am 9.30yb.

- Y Clwb Cant – Ebrill**

85 Val Hayward
47 Tim Jones-Griffiths
77 Maldwyn Morris

- Y Clwb Cant – Mai**

18 Harri Davies
63 Margaret Hughes
47 Tim Jones-Griffiths

Ar ôl pum mlynedd ar hugain mae'r Clwb cant yn dod i ben oherwydd lleihad yn nifer y cefnogwyr. Fodd bynnag, 'rydym yn ddiolchgar iawn i'r aelodau sydd wedi cefnogi dros y blynyddoedd.

Priodas
Llongyfarchiadau i Ieuan a Lliwen a briodwyd yn Eglwys y Gelli ar 27 Mai.

Garddwest y Tair Eglwys
Cynhelir ein Garddwest Flynyddol ar Sadwrn, 1 Gorffennaf, yn Ficerdy Pentir am 1.00yp. Dewch draw am bnawn hwyliog.

Llwyddiant Cerddorol
Llongyfarchiadau i Esther Llugwy Parry, 8 oed, o Lôn y Wern, ar gael ei derbyn yn aelod o gerddorfa hyfforddi Cerddorfa Plant Prydain. Bu Esther yn llwyddiannus yn dilyn clyweliad yn Llundain yn mis Mai. Bydd yn mynychu cwrs preswyl gyda 50 o gerddorion ifanc rhwng 7 a 10 oed yn ystod gwyliau'r haf.



Llwyddiant Llenyddol!

Yn ddiweddar, cynhaliwyd Eisteddfod Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yng Ngholeg y Brifysgol, Rhydychen, a braf yw cael nodi mai enillydd y Fedal Ryddiaith eleni oedd Buddug Watcyn Roberts, o Ben y Ffriddoedd, Tregarth. Y beirniad oedd y Prifardd Aneirin Karadog, ac ‘roedd yn llawn canmoliaeth i Buddug am ei gwaith. Cafodd ei hurddo mewn seremoni arbennig, gyda’i rhieni a’i chwaer fach Mari yn bresennol. Hefyd, cafodd y teulu ymweld â Choleg Iesu – taith a adawodd argraff ddofn arnynt.



Yn dilyn hyn, daeth y newyddion bod Buddug wedi ennill y wobr gyntaf mewn un gystadleuaeth ryddiaith, ac ail wobr mewn cystadleuaeth ryddiaith arall, o dan 19 oed, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni – tipyn o gamp, gan mai 16 oed yw hi ar hyn o bryd!

Llongyfarchiadau mawr i ti, Buddug!

Cangen Tregarth o Ferched y Wawr

Nos Lun, Mai 8, cafwyd cyfle i groesawu Sonia Williams, Craig y Pandy, Tregarth, atom i Festri Capel Shiloh i gyflwyno noson o ‘Hyder mewn Lliwiau’. Ers ymddeol o’i swydd mae Sonia wedi cychwyn busnes o addysgu cwsmeriaid pa liwiau sydd yn gweddu i bob unigolyn. Nid yn unig mae gwisgo gwisg o liw arbennig sydd yn siwtio’r cwsmer ond mae hefyd yn dangos pa golor sydd yn gweddu i’r unigolyn hwnnw. Agoriad llygad yn wir?

Yn ystod y noson cafodd tair o aelodau’r gangen gyfle i ddarganfod y lliwiau sydd yn gweddu iddynt sef Andrea Williams, Iona Rhys ac Angharad Huws. Bu cyfle i holi’r siaradwraig a fe ddiolchodd Nesta Llwyd iddi am noson ardderchog a’i llongyfarch am fynd ati i gychwyn busnes ei hun. Rhywbeth sydd yn eitha prin i ni fel Cymry?

Anfonwyd cyfarchion at rai o’r aelodau oedd yn sâl mewn ysbyty ac adref gan obeithio eu gweld yn y cyfarfodydd nesa o’r Gangen.

Dydd Sadwrn, Mehefin 3, bydd trip

y Gangen i’r Bala ac yna i’r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd, sef cartref y bardd Hedd Wyn.

Ar Orffennaf 4, i orffen y cyfarfodydd am eleni bydd Noson Gymdeithasol o Bwdin a Phrosec o Choffi yng nghartref ein Llywydd am eleni sef Margaret Jones, Cae Drain. Croeso i’r holl aelodau.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaeth am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol

Mehefin 18: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Mehefin 25: Trefniant Lleol

Gorffennaf 2: R.Ifor Jones, Hen Golwyn

Gorffennaf 9: Dafydd Hughes, Caernarfon

Gorffennaf 16: Ellie Jones, Bethesda

Gorffennaf 23: Eric Jones, Bangor

Gorffennaf 30: John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin

Croesawu Gweinidog newydd

Roedd yn hyfryd cael croesawu Y Parchedig Richard Gillion a’i briod Lesley i Shiloh fore Mawrth , Ebrill 25. Edrychwn ymlaen i fwy o’r aelodau ei gyfarfod a rhoi croeso iddo ef a’r teulu pan ddaw yn weinidog i Gylchdaith Môn ac Arfon ym Mis Medi.

Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Diolch i’r merched o Shiloh fu’n rhan o’r gwasanaeth yng Nghapel Jerwsalem, Bethesda, i gyflwyno neges Chwiorydd Cristnogol Ynysoedd y Philipin, sef ‘Ydw i’n anheg â thi.’

Oedfa Cymorth Cristnogol

Yn ôl yr arfer bu Oedfa Deulu Cymorth

Cristnogol yn Shiloh, Nos Sul, Mai 14.

Eleni daeth Llinos Medi Morris o Ganolfan Noddfa, Caernarfon, i’r gwasanaeth i siarad ar y testun ‘Ffoaduriaid’. Drwy gyfrwng fideo ac amryw o daclau teithio fe gawson ni fel cynulleidfa bictiwr o beth yw bod yn ffoadur yn y byd rydan ni’n byw ynddo. Pan deithiwn i ffwrdd ar wyliau mae ein bagiau yn llawn o anghenion y gwyliau ond i ffoadur sydd yn gorfod cychwyn ar frys heb fedru mynd a dim gydag ef wrth ffoi gall fod yn anodd a thorcalonus iawn. Braf oedd cael gwrando ar yr ieuenctid yn cymeryd rhan yn y gwasanaeth sef Huw, Gwenlli, Myfi, Nel, Gwenno a Iestyn. Diolch iddynt am eu cyfraniad ac i Llinos am ei neges bwrpasol ar gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol.

Cofio Tegla

Dydd Sadwrn, Mai 20, bu Cymdeithas Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yn cyfarfod yn Shiloh i ‘Gofio Tegla’. Yn ystod y dydd croesawyd aelodau o’r Gymdeithas ynghyd a ffrindiau o bell ac agos i fwynhau croeso a phaned yn Shiloh cyn cerdded i Fynwent Eglwys y Gelli i weld bedd Y Parchedig Tegla Davies fu’n Weinidog yn Shiloh ar fwy nag un achlysur gan fyw ym Mhant Têg. Yna bu Y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy yn darlithio ar Hanes Bywyd a Gwaith y Parch Ddr E. Tegla Davies (1880-1967) Gweinidog yr Efengyl a Llenor Nodedig Iawn. Daeth y diwrnod i ben gyda phryd o fwyd yn Y Faenol, Pentir. Diolch o galon i’r rhai fu’n trefnu’r diwrnod ac i aelodau’r capel fu’n paratoi ar gyfer y gynulleidfa. Bu’n ddiwrnod hynod o lwyddianus.



I hysbysebu yn Llais Ogwan, Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Ysgol Bodfeurig

Pili Palas

Fel rhan o’u thema Crëwr Bwystfilod bu dosbarth Tryfan ar ymweliad â Pili Palas. Cawsom ddiwrnod anhygoel yn dysgu llawer am drychfilod. Dyma hanes Charlie ac Owen am y diwrnod.

“Mi aethom i Pili Palas i ddysgu am drychfilod. Er syndod i ni darganfyddom lawer o ffeithiau am fwystfilod! Rhaid i ni ganmol Gavin am ddangos y wybodaeth ddiddorol yma i ni. Aethom i’r tŷ Pili Pala ble gwelsom wyfyn yn dod allan o cocŵn – roedd o’n anhygoel! Hefyd gwelsom y gwyfyn atlas, gwyfyn mwyaf y byd! Ar ôl hynny cawsom gyffwrdd mewn madfall tafod lân, roedd hi’n esmwyth iawn. Ein hoff anifeiliaid oedd y mirgathod a’r moch cwta oherwydd fod nhw’n gyflym ac yn ciwt! Cawsom gyfle i gyffwrdd mewn pry pric, malwoden fawr Affricanaidd a neidr filtroed. Rydym yn argymhell i unrhyw un fynd i Pili Palas cawsom ddiwrnod grêt!”

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

Mae’r mis yma wedi bod yn un prysur iawn i GRhA (PTA) yr ysgol gyda llawer o waith codi arian yn mynd ymlaen. Yn gyntaf cynhaliodd un o rieni’r ysgol Bath Gong arbennig i blant a’u rhieni – mae’r sesiwn yn defnyddio sain i ymlacio’r corff a’r ymennydd. Talodd pawb oedd yn mynychu, gyda’r elw yn mynd tuag at yr ysgol. Yn ogystal â hyn fe gynhaliwyd



Dosbarth Ogwen yn mwynhau Prosiect Llwybr Llechi Eryri



Dosbarth Idwal yn blasu bwyd Eidalaidd

‘Bake Off’ yn yr ysgol. Bu pawb yn brysur yn coginio cyn i gogydd lleol feirniadu’r gystadleuaeth. Gwerthwyd y cacenau gyda’r elw unwaith eto’n mynd tuag at gronfa’r ysgol. Gyda’r ddau weithgaredd yma llwyddwyd i gasglu £500 – arian fydd yn mynd tuag at

y Chromebooks sydd wedi eu harchebu i’r ysgol.

Diwrnod Eidalaidd

Cafodd dosbarth Idwal amser gwych yn dathlu diwrnod Eidalaidd fel rhan o’u thema ‘Blasus’. Buont yn brysur yn creu a choginio pitsas, gwisgo

dillad lliwiau banner yr Eidal, dysgu ffeithiau am y wlad yn ogystal â chyfle i flasgu bwyd o’r Eidal. Cafwyd diwrnod gwych yn dysgu am ddiwylliant arall.

Llwybr Llechi Eryri

Mae Dosbarth Ogwen wedi bod yn cymryd rhan yn Prosiect Llwybr Llechi Eryri ac yr wythnos hon, wedi bod ar daith gerdded i osod ‘geocache’ newydd ar y llwybr. Mae hyn yn ddilyniant i waith a wnaethpwyd yn gynharach yn y flwyddyn o dan arweiniad Anita Daimond. Cafodd pawb fore diddorol yn dysgu mwy am geocashe ac maent yn awyddus i wneud mwy.

Glan Llyn

Diolch i’n ffrindiau o ysgolion y dalgylch ddaeth i Glan Llyn am benwythnos gwych o hwyl gyda ni. Cafodd criw o blant blwyddyn 5 a 6 amser arbennig yno yn dysgu sgiliau newydd megis canwio a dringo yn ogystal a’r cyfle i gymdeithasu gyda phlant eraill o’r ardal. Diolch i staff yr ysgol wirfoddolodd i fynd yno am y penwythnos gyda’r plant.

Elusen

Y tymor yma dewisodd y Cyngor Ysgol elusen i’w chefnogi. Elusen y tymor yma oedd Awyr Lâs. I godi arian tuag at yr elusen daeth pawb i’r ysgol wedi gwisgo mewn glas a talu am y fraint. Diolch i bawb gefnogodd!

Calendr Llais Ogwan 2018

Lluniau ar gyfer Calendr 2018 i mewn cyn DIWEDD GORFFENNAF 2017, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu’r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a’r Glyderau) yn cael eu hystyried

Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i Dafydd Fôn deifon@yahoo.co.uk neu (os heb fod yn ddigidol, neu ar ddisg) 14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, Bethesda LL57 3TR

Edrychwn ymlaen i weld eich lluniau

Owen’s Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

CHWILAIR

SIR BENFRO

Yn y chwilair mis yma mae ENW DEUDDEG LLE YN SIR BENFRO. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 5 Gorffennaf. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Daeth yr atebion cywir chwilair mis Ebrill, gan John a Meirwen Hughes i law braidd yn hwyr (4ydd o Fai) ac roeddwn wedi anfon y deunydd ar gyfer Mai ymlaen i'r wasg y noson cynt. Gobeithio cewch hwyl ar y chwilair mis yma, wrth grwydro Sir Benfro. Rwyf yn falch fod nifer fawr ohonoch wedi mwynhau'r wefan Hanes Dyffryn Ogwen, ond yn anffodus roedd lawer ohonoch wedi darganfod deg neu unarddeg o benawdau, ond daeth deuddeg i'r brig gan ddarganfod yr atebion i gyd.

Dyma atebion Mai:- Chwarel Foel; Cwm Idwal; Cwt Dafydd Ross; Eglwys Llanllechid; Ffos Coetmor; Garneddwen; Llyn Meurig; Nant tŷ; Ogwen Banc; Parc Penrhyn; Sgwar Rachub; Ysbyty Brynllwyd.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Doris Shaw, Bangor; Wendy Eccles,

A	A	A	B	E	R	L	L	Y	D	A	N	W	F	H	R	I	E	J	L
C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I	M	G	G	V
H	M	L	L	E	H	C	R	A	F	R	E	A	C	Y	D	O	W	H	U
B	Y	G	A	R	N	F	A	W	R	T	Z	M	N	X	H	V	A	D	D
L	N	A	P	A	U	Q	U	S	R	O	F	Y	R	C	P	Y	Q	Z	G
A	R	H	C	U	M	W	N	E	O	Y	S	R	R	I	A	S	Z	U	T
E	F	D	X	U	P	W	A	R	H	B	N	A	C	Q	H	W	E	H	O
N	Y	E	E	G	E	M	O	M	Y	A	F	H	N	E	P	T	T	C	B
F	B	C	U	U	L	J	P	R	I	E	D	A	L	N	T	M	I	V	V
F	D	C	B	O	B	F	R	R	R	D	L	F	O	E	G	J	V	I	I
O	R	R	D	X	I	M	E	D	R	L	H	T	T	L	O	S	K	O	P
S	W	R	C	M	K	B	N	O	N	C	B	O	R	E	C	X	V	R	Y
H	S	T	M	R	N	I	F	E	E	F	Y	J	D	F	Z	H	B	C	W
O	S	C	R	Y	L	F	H	A	I	X	N	I	L	E	X	J	J	M	B
W	T	E	R	E	L	N	X	M	D	X	K	F	U	R	P	C	Q	Y	O
I	L	B	F	W	Y	A	B	E	R	C	U	C	H	T	F	E	R	Z	Q
R	O	C	H	R	T	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	K	J	C
L	N	L	B	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U
L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T
Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S

Llanllechid; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elfed Bullock, Bethesda; Gwen Davies, Bethesda; Marilyn Jones, Bethesda; Mair Jones, Bethesda;

Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Alwyn Roberts, Tregarth.

Enillydd Mai oedd: Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

(01286) 672076

Sian.Gwenllïan@cynulliad.cymru



Hywel Williams

Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

☎ (01286) 672 076

williams@parliament.uk


WILLIAM MURPHY

Y dyn olaf i’w ddienyddio yng Ngharchar Caernarfon

gan Andre Lomozik

Yn ystod mis Chwefror roeddwn yn darllen llyfr gan T. Meirion Hughes, o Gaernarfon. Teitl y llyfr oedd Hanesion Tre’r Cofis, ac ar y ddwy dudalen olaf roedd hanes William Murphy. Pigodd hyn fy nghof, gan fy mod wedi dod ar draws ei hanes tua phum neu chwech mlynedd yn ôl wrth bori trwy hen bapurau newydd yn llyfrgell y brifysgol. Roeddwn ar y pryd wedi meddwl ysgrifennu ychydig o’r hanes ar gyfer y Llais, ond aeth fy sylw ar ôl pethau eraill. Felly dyma ail-afael ar y manylion a’r stori yn fras. Gwyddel 49 mlwydd oed oedd William Murphy, ac ar nos Nadolig 1909 fe lofruddiodd ferch 36 mlwydd oed yng Nghaergybi. Roedd Gwen Ellen Jones wedi priodi â Morris Jones, dyn o Llanfairfechan, ond ni pharodd y briodas yn hir. Gadawodd ei gŵr a chyfarfod â William Murphy. Roedd bachgen chwe mlwydd oed ganddi o’r berthynas yma pan lladdwyd hi. Roedd y berthynas yn un danllyd iawn, ac roedd William yn dueddol o’i gadael am gyfnodau hir.

Tua mis Tachwedd 1909 fe alwodd William yng nghartref tad Gwen i holi amdani. Dywedodd ei thad ei bod wedi mynd i Sir Fôn rhai wythnosau ynghynt, ond nid oedd yn gwybod i ble yn union. Aeth William i Sir Fôn i chwilio am Gwen, ac ychydig cyn y Nadolig daeth o hyd iddi yn byw gyda dyn arall yng Nghaergybi. Mae’r papurau newydd yn dweud fod Gwen yn ‘hocio’ (gwerthu nwyddau o ddrws i ddrws). Pan ddaeth William Murphy o hyd i’w lleoliad trefnodd i gyfarfod â hi ar nos Nadolig. Roedd Gwen wedi treulio y noson y llofruddiwyd hi gyda ffrind o’r enw Lizzie Jones yn un o dafarndai’r dre, sef y Bardsey Island. Ar y ffordd allan o’r dafarn roedd William a dyn arall o’r enw John Jones, yr hwn a adnabyddid fel ‘Johnny Flammiau’ yn disgwyl amdanynt a bu i’r pedwar ymddiddan a’u gilydd. Dywedodd Murphy ei fod eisiau sgwrs â Gwen. Trodd hi at Lizzie a gofynnodd a wnâi hi ei hesgusodi. Yna cerddodd Gwen a Murphy i ffwrdd â’u gilydd. Trodd Lizzie am adref, a thua naw o’r gloch galwodd Murphy yn ei thŷ a honni ei fod wedi lladd Gwen. Galwodd wedyn



yn nhŷ Johnny a gofyn iddo fynd gydag ef. Holodd Johnny beth oedd yn bod, a dywedodd Murphy, ‘Dewch a gwelwch’. Ar y ffordd dywedodd ei fod wedi lladd Gwen a gofynnodd i Johnny fynd i nôl yr heddlu. Ychydig yn ddiweddarach aeth Murphy i swyddfa’r heddlu ac yng nghwmni y Dirprwy Brif Gwnstabl Protheroe, aeth i’r fan lle gorwedda i corff Gwen mewn ffôs. Ar gyfaddefiad Murphy, dywedodd eu bod wedi dechrau dadlau am fod Gwen wedi gwrthod mynd i ffwrdd ag ef i Ddeheubarth Cymru, a’i fod wedi tagu Gwen a thorri ei gwddf o glust i glust, a’i thaflu i’r ffôs.

Y Prawf yn Beaumaris
Roedd Brawdlys Sir Fôn yn orlawn ar y dydd Mercher, gyda phobl wedi dod i wrando achos Murphy, yr hwn a gyhuddwyd o ladd Gwen Ellen Jones. Pan ddarllenwyd y cyhuddiad allan i’r carcharor atebodd ‘Di-euog’. Ni bu y rheithwyr allan ond am ychydig funudau cyn dod â rheithfarn o ‘Euog’, a derbyniodd William

Murphy y dyfarniad yn hollol ddigwyffro. Gwisgodd y Barnwr y cap du a chyhoeddi dedfryd o farwolaeth arno. Pan adawodd y doc hwtiwyd arno gan y dorf. Anfonwyd Murphy i garchar Caernarfon, lle bu yn disgwyl am y diwrnod tyngedfennol, ac am wyth o’r gloch ar y 15fed o Chwefror 1910 cerddodd i’r crocbren yng nghwmni Hugh C. Vincent, Is-Sheriff Sir Fôn, Robert Parry, Y.H. Caernarvon, Jas. F. Farley, rheolwr y carchar a’r Tad Gouzier (caplan y carchar). Dyn o’r enw Pierpoint oedd y dienyddiwr, gyda Willis yn gynorthwywr. Roedd y ddau wedi cyrraedd Caernarfon y diwrnod blaenorol ac wedi aros yn y carchar dros nos. Er i sawl un ofyn i’r gosb eithaf gael ei rhoi heibio, yn eu mysg Wm. George, Garthcelyn, Cricieth, ni sbariwyd bywyd Murphy gan y Gweinidog Cartref.

Beth wnelo yr hanes uchod â Bethesda? meddech! Wel, roedd cysylltiad gan Gwen â’r ardal gan fod ei thad a’i mam, Mr a Mrs John Parry, yn byw yn Cae Star, ac mae’n debygol fod Gwen ei hŷn wedi byw yma am gyfnod hefyd, cyn priodi, oherwydd fe’i hadnabyddid hi fel ‘Watercresses’ gan nifer fawr o’r gymdogaeth.

Mae cofnod yn ymddangos yn y ‘Caernarvon & Denbigh Herald & North & South Wales Independent’ Chwef. 18, 1910 yn rhestru deg o achosion eraill lle dienyddiwyd rhywun yng ngharchar Caernarfon, yn eu mysg mae un merch, am ladd plentyn, a gŵr o’r enw Morris Rowlands a dienyddiwyd ar Ebrill 5ed, 1778, am ladd melinwr Cochwillan, ger Talybont.



Llythyrau

Annwyl Olygydd

CAIS ELUSEN AM FAGIAU AC

ATEGOLION I'W GWERTHU AR FAES

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN

Oes gennych Gucci, Burberry neu Radley llychlyd yn llechu yn y drôr ac rydych yn chwilio am gartref da iddynt?

Eleni bydd Achub y Plant yn

gwerthu **bagiau, ategolion, gemwaith**

a **theis dynion** ar ein stondin ar faes

Eisteddfod Genedlaethol Môn.

Hoffem wneud apêl i'ch darllenwyr i'w holi'n garedig i gyfrannu unrhyw eitem y gallwn eu gwerthu ar y stondin. Croesawir unrhyw roddion o safon uchel ac sydd mewn cyflwr da er mwyn codi arian at waith yr elusen yma yng Nghymru, a thramor.

Mae Achub y Plant yn gweithio mewn dros 120 o wledydd drwy'r byd. Yma

yng Nghymru, rydym yn cefnogi plant

a'u teuluoedd yn rhai o'n hardaloedd

tlotaf ac wedi helpu yn agos i 9,800

o blant drwy ein rhaglen datblygiad

plentyn, *Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae!* ac

wedi cefnogi bron i 4,000 o blant drwy

ein rhaglenni *Teuluoedd ac Ysgolion*

Ynghyd a *Chysylltu Teuluoedd*. Rydym

hefyd yn cefnogi rhieni a gofalwyr i

helpu plant gyda'u darllen a sgiliau

sylfaenol eraill yn yr ysgol ac mae ein

rhaglen *Cymer Ofal* yn helpu i gynyddu

gwydnwch plant mewn amser o argyfwng.

Trefnir y stondin eleni gan Gangen

Ynys Môn Achub y Plant ac yn ogystal

â gwerthu rhoddion ail-law ar y stondin

gydol yr wythnos yn yr Eisteddfod

cynhelir **Arwerthiant Enwogion** ar y

dydd Mercher yng nghwmni'r arwerthwr

adnabyddus Dafydd Hardy. Dyma gyfle

unigryw i Eisteddfodwyr lwcus fachu bag

a garwyd gan Katherine Jenkins; mwclis

a wisgwyd gan yr actores Siân Phillips,

tei sydd wedi camu ar lwyfannau operâu

mwyaf y byd am wddf Bryn Terfel a mwy

o roddion gan enwogion fel Dafydd Iwan,

Shan Cothi, aelodau cast Pobol y Cwm a

Rownd a Rownd a llawer mwy.

Gofynnwn yn garedig i chi gyfrannu

unrhyw roddion erbyn **30ain o Fehefin** a

gellir trefnu casgliadau drwy gysylltu ag

Alison Wood, Cadeirydd Cangen Ynys

Môn Achub y Plant drwy ffonio 07766

116 114 neu ffonio keninandalisonwood@

talk21.com

Gyda diolch

Eurgain Haf

Rheolwr Cyfryngau a Chyfathrebu Achub

y Plant - Cymru

Annwyl gyfaill,

Estynnir gwahoddiad i chi

i **Ysgol Undydd Dathlu**

Cymunedau a gynhelir yn

Senedd-dy Owain Glyndŵr

Machynlleth, ddydd Gwener,

30 Mehefin, 11 yb - 4.00 yp.

Trefnir y digwyddiad

gan weithgor Cymunedau

Byw Cymdeithas yr Iaith

er mwyn trafod datblygu

cynllun ymarferol i gymhathu

dysgwyr a siaradwyr Cymraeg

yn eu cymunedau.

Mae'r diwrnod yn ymwneud

â dathlu'r digwyddiadau

diwylliannol sy'n digwydd

yn barod a chodi hyder

pobl i groesawu dysgwyr a

mewnudwyr i ddigwyddiadau

Cymraeg. Bydd nifer o

gynrychiolwyr yn bresennol

yn ogystal â phresenoldeb

gan y Mentrau iaith, Mudiad

Dathlu'r Gymraeg a'r

Ganolfan Dysgu Cymraeg

Cenedlaethol.

Rydyn ni'n awyddus iawn i

wahodd arweinwyr cymunedol,

cynrychiolwyr mudiadau,

dysgwyr brwdfrydig ac unrhyw

un sydd am greu cynllun

er mwyn ymestyn allan at

ddysgwyr a mewnudwyr a'u

cymhathu.

Os hoffech chi fwy o

wybodaeth am y digwyddiad

cysylltwch â mi ar

nia.llywelyn@googlemail.

com neu 01650 511865.

Gobeithio eich gweld yno,

ym mhrif ddinas hynafol

Cymru!

Yn gywir

Nia Llywelyn

Swyddog Cymunedau Byw,

Cymdeithas yr Iaith

Cerwch yn *Wyllt!* gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd

Cymru yn darparu adnoddau a

gweithgareddau dwyieithog i gymunedau

ledled Gogledd Cymru ac mae wedi

ymrwymo i ysbrydoli pobl o bob oed i

fwynhau a gwerthfawrogi byd natur. Yr haf

diwethaf, roedd yn bleser cael croesawu

naturiaethwr Springwatch ac S4C, Iolo

Williams, i ymuno â ni yn Sioe Môn i lansio

Gwyllt! - y cylchgrawn natur Cymraeg

cyntaf i blant. Eleni rydyn ni'n benderfynol

o symud ymlaen a dod â'n cylchgrawn

i sylw cymaint o siaradwyr Cymraeg a

dysgwyr â phosib - 'fyddech chi'n hoffi

ymuno yn y cyffro?

Rydyn ni'n gwybod bod pob plentyn yn

mwynhau bod allan yn yr awyr iach. Maen

nhw'n hoffi archwilio a darganfod yng nghae

chwarae byd natur. Mae ein cylchgrawn

newydd, sy'n llawn lluniau, posau a

chystadlaethau gwych, a phoster byd natur

neu daflen weithgarwch am ddim ym mhob

rhifyn, yn ceisio ysbrydoli'r naturiaethwyr

ifanc yma i gymryd eu camau cyntaf y

tu hwnt i'r dudalen. Bydd y tanysgrifwyr

newydd yn ymuno â'r 150,000 o aelodau o

Gwyllt!, cangen iau'r Ymddiriedolaethau

Natur a'r prif glwb yn y DU ar gyfer

naturiaethwyr ac amgylcheddwyr ifanc brwd.

I dderbyn cylchgrawn *Gwyllt!* neu *Wildlife*

Watch ymunwch ag Ymddiriedolaeth Natur

Gogledd Cymru fel aelodau teulu yn [http://](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/helpwch-ni/ymunwch-ein-ymddiriedolaeth)

[www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/helpwch-ni/ymunwch-ein-ymddiriedolaeth)

[helpwch-ni/ymunwch-ein-ymddiriedolaeth](http://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/helpwch-ni/ymunwch-ein-ymddiriedolaeth),

gan wneud yn siŵr eich bod yn dilyn y

cyfarwyddiadau i ddweud wrthym a ydych

eisiau copi o'r cylchgrawn yn y Gymraeg,

yn Saesneg neu'r ddau! Hefyd dywedwch

wrthym ni ble gwelsoch chi'r erthygl yma

ac fe fyddwn yn anfon copi am ddim i

chi o lyfr gwych Iolo Williams a Bethan

Wyn Jones, *Glan y Môr*, pan fyddwch

yn tanysgrifio.) Byddwch yn cefnogi ein

gwaith dros fywyd gwyllt lleol ac yn derbyn

cylchgrawn gwych ar yr un pryd - be gewch

chi well?

Hefyd, fe fyddwn ni yn yr Eisteddfod

Genedlaethol fis Awst eleni lle bydd helfeydd

trychfilod, garddio er lles bywyd gwyllt,

gwestai i drychfilod, gwneud blychau adar a

llawer mwy - ac fe fyddwn ni'n dod â glan y

môr i galon Ynys Môn hyd yn oed! Dewch

i'n gweld ni ac i ymuno yn yr hwyl - cadwch

lygad am y babell siâp seren fôr enfawr!

Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich cyfarfod

chi.

Hoffai Ymddiriedolaeth Natur Gogledd

Cymru ddweud "diolch yn fawr" i chi,

chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl, sydd

wedi gwneud cynhyrchu Gwyllt! yn bosib.

Lladdwyr Balsam Tregarth

Ym mis Mai a mis Mehefin daeth criw o drigolion Tregarth at ei gilydd i ddechrau lladd ffromlys/balsam o'r Himalaya (Jac y Neidiwr), sydd wedi lledaenu drwy'r ardal hon dros y blynyddoedd diwethaf. Mae llawer o bobl wedi bod yn brwydro yn erbyn y ffromlys ar eu tir eu hunain neu dir eu cymdogion ers blynyddoedd gyda llwyddiant cymysg. Ond, gyda phawb yn tynnu efo'i gilydd eleni ac yn y dyfodol, rydym yn llawer mwy tebygol o lwyddo. Mae menter debyg ym Mynydd Llandygai wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Er nad ydynt yn niweidiol i bobl nag anifeiliaid, gall y planhigion ymledol yma dyfu mor drwchus fel na all ein blodau brodorol Cymreig oroesi oddi tanynt. Mae nifer o dirfeddianwyr wedi croesawu'r fenter hon a chaniatáu'r gwirfoddolwyr gael mynediad i'w tir i chwilio am y planhigion ac yna eu tynnu allan i'w lladd. Unwaith y bydd y planhigion wedi cynhyrchu

hadau, bydd hi'n rhy hwyr i weithredu eleni, ond bydd mwy o weithgareddau ar y cyd y gwanwyn nesaf.

Os ydach chi eisiau helpu :-

- Gofynnwch am ganiatâd perchennog y tir i gael mynediad, a diwreiddiwch y planhigion (daw o'r ddaear yn hawdd iawn!) Lle mae wedi ymgartrefu dros ardaloedd mwy, gall ei strimio yn agos at y ddaear cwpl o weithiau'r flwyddyn fod yn effeithiol iawn.
- Cofiwch gael gwared â'r planhigion a dynnwyd yn ystyriol ar domen gompost adref, neu crëwch bentwr mewn cornel o'r cae iddo bydru yn y fan a'r lle.
- Byddwch yn ofalus i beidio â chario'r hadau i ardaloedd newydd - ar gŵn neu ddillad neu esgidiau!
- Chwiliwch amdanom ar ein tudalen Facebook: Tregarth Balsam Bashers/ Lladdwyr Balsam Tregarth neu cysylltwch â tamsinfretwell@hotmail.co.uk



Lladdwyr ifaine wrthi ger Canolfan Tregarth.

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Cyngerdd cofiadwy yn Beverley

Ar yr 20fed o Fai ar wahoddiad Cymdeithas Gymraeg Dwyrain Swydd Efrog aeth Côr y Penrhyn i gynnal cyngerdd am yr eildro yng nghapel mawr Toll Gavel ynghanol tref Beverley, ger Hull.

Yn yr adeilad urddasol hwnnw canodd y côr ddarnau Cymreig cyfarwydd megis *Y Ddau Wladgarwr*, a'r hen ffefryn *Myfanwy* gan Joseph Parry yn ogystal â darnau llai cyfarwydd megis *Cwyn y Gwynt* gyda'r geiriau gan Syr John Morris Jones ar alaw o'r Wcráin. Yn naturiol aeth darnau fel *Tshotoloz*a o Dde Affrica a *Take Him Home* o'r sioe gerdd enwog **Les Misérables** i lawr yn arbennig o dda a derbyniodd *Dagrau* addasiad o'r gân *Tears in Heaven* gan Eric Clapton gymeradwyaeth uchel. Hyfryd oedd cael canu unwaith yn rhagor i gynulleidfa lawn mewn adeilad oedd yn dal 900 o bobl a phob un yn gwerthfawrogi'r seiniau a gynhyrchid gan y côr. Diolch arbennig i'n hunawdwyr, Raymond Roberts, John Outram, Hywel Thomas, Caleb Jones ac Elfyn Bullock am eu cyfraniadau hwythau.

Fel y sylwodd sawl aelod o'r gynulleidfa, "Mae clywed canu mor wych a bywiog yn beth i'w gofio a byddwn yn sicr o ddod i wrando ar Gôr y Penrhyn eto."

Eglwys Sant Ioan, Llandudno

Mae'r gyrchfan hon yn un o hoff leoedd y côr erbyn hyn gan ein bod yn sicr o dderbyn croeso gwresog gan gynulleidfa niferus. Rhoddwyd perfformiad hynod o lwyddiannus arall yno ar Nos Iau 25ain o Fai a daw sawl aelod o'r gynulleidfa yno'n rheolaidd i wrando ar y côr. Côr y Penrhyn yw'r artistiaid mwyaf cyson ac aml eu cyflwyniadau

yn y lle poblogaidd hwn ac mae nifer yn gwylio'r dyddiadau pan fyddwn yn perfformio yno er mwyn sicrhau lle. Braint yw cael canu rhai o ffefrynnau cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith i wrandawyr sy'n gwerthfawrogi canu grymus a phersain.

Ymunwyd â ni ar y noson gan Eleri Owen Edwards o Gil y Cwm, ger Llanymddyfri sy'n gantores boblogaidd a chyfarwydd i gynulleidfaoedd ledled Cymru.

Tiroedd ein Cof

Mae'r gwaith o ddysgu cân newydd bob amser yn her ond mae dimensiwn pellach i'r her honno pan rydym yn ceisio meistrolï campwaith y Prifardd Ieuan Wyn gyda'i soned laes sy'n trafod brwydrau'r hen dywysogion Cymreig i warchod y genedl Gymreig rhag rhaib y brenhinoedd Seisnig. Mae'r geiriau sydd wedi eu cyfansoddi er cof am y diweddar Tom Morgan yn trafod yr emosiwn a deimlir wrth edrych ar Y Fenai, Llanfaes ac Ynys Seiriol o gyfeiriad ffriddoedd a hafodydd y Bronnydd gan i'r Cymry ymladd yn hir am annibyniaeth yn y manau hyn. Gosodwyd geiriau Ieuan i fwsig gan y Dr Owain Llwyd, y cerddor o Lyndyfrdwy sy'n darlithio yn Adran Gerdd y Coleg ym Mangor ac edrychwn ymlaen at berfformio'r darn cyffrous hwn am y tro cyntaf yn y cyngerdd gyda Band Black Dyke yn Venue Cymru ar 17 Mehefin.

Cofiwch fod y tocynnau i'r cyngerdd hwnnw'n mynd yn gyflym ond mae ychydig ar ôl a dylech geisio eich cyfran chi ar fyrder gan Walter Williams, Arennig, Erw Las, Bethesda, drwy ffonio 01248 601167 neu drwy e-bostio waltermenai@yahoo.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART
CAR CARE
CENTRE

Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan

Adran Bro Dyffryn Ogwen

Roedd dipyn o gynnwrf ddiwedd Mai wrth i Adran yr Urdd Bro Dyffryn Ogwen deithio i lawr i Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr Adran yn cystadlu ar y Parti Unsain a'r Parti Cerdd Dant i Adrannau Bl.6 ac iau. Bu'r plant yn ymarfer yn frwd dros yr wythnosau diwethaf yng Nghapel Jerusalem gyda Hywel a Jane Parry, ac Angharad Beech yn ceisio cadw trefn ar y genod! Cynhaliwyd cyngerdd bach cyn y Steddfod i godi arian at y trip, ac fe hoffem ddiolch o galon i bawb ddaeth i gefnogi, a diolch i Walt, Menai a Lowri am ei drefnu.

Roedd yn dipyn o hwyl i'r genod gael aros mewn gwesty gyda'i gilydd, a chawsom yr ymarfer olaf yng nghyntedd y gwesty am 7 y bore cyn mynd i'r rhagbrofion! Rhagbrawf y Parti Unsain oedd gyntaf - 'Y Ceidwad Gôl' oedd y darn - addas iawn gyda Chynghrair y Pencampwyr y digwydd dros y penwythnos! Fe ganodd y parti yn ardderchog, ond yn anffodus roedd y partion eraill hefyd o safon uchel iawn!! Aethom yn syth i'r rhagbrawf y



Parti Cerdd Dant i ganu am 'Yr Enfys', gan ganu'n fendigedig eto, a phawb yn croesi bysedd am gael llwyfan.

Ond doedd hynny ddim i fod y tro hwn, er bod y feirniadaeth yn nodi eu bod yn barti addawol, brwdfrydig a'u hwynebau serchog yn llawn mynegiant! Doedd dim

amdani felly ond mwynhau gweddill y dydd ar faes yr Eisteddfod, ac yn y ffair wrth gwrs! Cafodd y criw brofiad bythgofiadwy yno, ac roeddent mor falch o gael cynrychioli eu hardal. Da iawn chi genod am roi o'ch gorau! Amdani eto'r flwyddyn nesaf!!

Newidiadau i Gabinet Cyngor Gwynedd

Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, wedi cyhoeddi ei Gabinet newydd.

Mae tri aelod newydd i'r Cabinet: y Cyngorydd Craig ap Iago (Llanllyfni) fydd yn

arwain maes Tai, Hamdden a Diwylliant; y Cyngorydd Gareth Wyn Griffith (Y Felinheli) fydd yr Aelod dros Briffyrdd a Bwrdeistrefol a'r Cyngorydd Dilwyn Morgan (Y Bala) yw'r Aelod Cabinet dros

Wasanaethau Plant. Bydd y Cyngorydd Mair Rowlands (Bangor - Menai), sydd hefyd yn Ddirprwy Arweinydd, yn cymryd yr awenau dros faes Cefnogaeth Gorfforaethol ac mae'r

Cyngorydd Ioan Thomas (Caernarfon - Menai) bellach yn gyfrifol dros faes Datblygu'r Economi.

Cyfrifoldeb y Cyngorydd Dafydd Meurig (Arllechwedd) fydd maes yr Amgylchedd; bydd y Cyngorydd Peredur Jenkins (Brithdir / Llanfachreth / Ganllwyd / Llanelltyd) yn parhau i fod yn gyfrifol am Gyllid; y Cyngorydd Gareth Roberts (Aberdaron) yn parhau i arwain dros Wasanaethau Oedolion; a'r Cyngorydd Gareth Thomas (Penrhyndeudraeth) fydd yn gyfrifol am faes Addysg.

Dywedodd y Cyngorydd Dyfrig Siencyn: "Rydw i'n edrych ymlaen at weithio gyda tîm newydd y Cabinet wrth i ni ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

"Mae gennym dîm galluog profiadol ynghyd ag aelodau newydd brwdfrydig. Byddwn yn ymroi i'r gwaith yn ddiymdroid."



Cabinet newydd Cyngor Gwynedd

Ffritata

2 sleiesen o gig mochyn neu sbarion ham.
Cyw iâr.
2 nionyn wedi'i sleisio a'u hanner-ffrio.
2 dysen fach wedi eu berwi neu rai sy'n sbâr ar ôl cinio'r diwrnod cynt.
½ pupur coch wedi'i dorri'n fân,
6 ffeuen fach.
6 pys siwgr.
2 fadarchen wedi'i sleisio'n denau.
Brocoli wedi'i dorri'n fân.
1 foronen wedi'i ei thorri fel matsys.
5 ŵy ac ychydig o hufen os ar gael neu tua ½ cwpan de o lefrith (curwch yn dda).
4-5 nionyn bach wedi'u torri (a'r gwyrdd hefyd).
Tua 4 owns o gaws Cheddar cryf wedi'i gratio. Os oes basil ffres ar gael, torrwch ryw 5 sleisen a'u rhoi ar ben y cwbl.
Ar waelod dysgl, rhowch y nionod wedi'u ffrio. Rhoi'r tatws wedi'u sleisio a'u haneru, Taenu'r tatws nesaf, Wedyn y cig mochyn wedi'i dorri'n fân. Pob peth arall wedi ei daenu'n dda. Rhoi pupur du a halen cyn ychwanegu'r caws. Wedyn yr wyau. Rhowch yn y popty ar 180 gradd ar y silff ganol am ryw 20 munud neu tan ei fod yn teimlo'n solet ond ddim yn galed.

Mae hwn yn ginio rhad a blasus ar gyfer 4-6 efo tatws newydd a salad neu sglodion.



gair neu ddau

John Pritchard

Y Mwyafrif

Mae pobl yn fy nychryn. Nid pawb wrth reswm. Dwi ddim mor ofnus â hynny. Mae pobl yn medru bod yn ffeind ac yn dda. Y dorf sy'n fy nychryn. Nid y dorf ei hun chwaith rhag i chi feddwl fod torf theatr neu dorf cae pêl droed yn codi ofn arnaf. Barn y dorf sy'n fy nychryn, ac yn arbennig y canfyddiad fod rhaid derbyn mai llais y dorf sydd bob amser yn cario'r dydd, a bod rhaid i'r lleiafrif bob amser ildio i'r mwyafrif.

Ar wahân i'w deulu ei hun, roedd pawb yn credu fod Noa yn wirion ac yn mynnu na ddeuai'r dilyw. Fyddai dim sôn am Arch Noa petai o wedi gwrandao ar y dorf. Pan chwalodd Gideon allor Baal roedd bron pawb yn Offra yn credu ei fod ar fai ac yn haeddu cael ei ladd am hynny. Ac oni bai am ymyrraeth ei dad Joas byddent wedi ei ladd. Ar Fynydd Carmel, gellid tybio nad oedd obaith i Elias gan fod 850 o broffwydi'n ymryson ag ef. Ond yr un (gyda Duw o'i blaid wrth gwrs) a orfu. Ym Mabilon, roedd pawb yn ufuddhau i'r gorchymyn i addoli'r ddelw aur; pawb ond Daniel a'i dri chyfaill. A'r dorf waethaf oll yw'r un y darllenwn amdani yn y Testament Newydd yn udo am waed yr Arglwydd Iesu ac yn mynnu bod Pilat yn ei anfon i'w groeshoelio.

Dysgodd Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd nad y dorf na barn y dorf sydd i reoli ei bobl. Soniodd am borth llydan a ffordd eang y mae'r 'llawer' yn mynd trwyddo ac yn ei cherdded, i ddistryw. Ond heriodd ei ddisgyblion i beidio â dilyn y dorf ond yn hytrach i fynd trwy borth cyfyng a cherdded ffordd gul sy'n arwain i fywyd. Un o'r pethau cyntaf i'w ddysgu am y bywyd Cristnogol yw'r rheidrwydd i gael ein rheoli nid gan yr hyn a ddywed y mwyafrif wrthym ond gan yr hyn a ddywed Duw wrthym yn ei Air ac yn ei Fab Iesu Grist.

Nid awgrymu yr ydw i fod y dorf bob amser yn anghywir. Dim ond ffŵl fyddai'n dadlau mai'r lleiafrif sydd bob amser yn gywir. Ond ffŵl hefyd sy'n mynnu mai barn y mwyafrif sydd gywir bob amser ac mai ar lais y mwyafrif y dylid gwrandao ar bob achlysur. Mae'r Cristion yn deall hynny'n iawn. Os yw'r mwyafrif yn mynnu nad oes Duw ac nad oes unrhyw werth yng Nghrist, mae'r Cristion yn dal i gredu ac yn dal i arddel yr Efengyl.

Ac ydi, mae'r bobl yn dal i'm dychryn. Mae arnaf ofn mai un peth a glywn fwy a mwy'r blynyddoedd nesaf yw'r gri am adfer y gosb eithaf yng ngwledydd Prydain. Yn ôl Arolwg YouGov a wnaed yn 2014, roedd 45% o'r bobl a holwyd o blaid adfer y gosb eithaf a 39% yn erbyn, gyda'r gweddill heb fod o blaid nac yn erbyn. Ac er bod mwy o blaid nac yn erbyn, y peth calonogol oedd bod ers canol 80au'r ganrif ddiwethaf lai a llai o bobl bob blwyddyn o blaid adfer y gosb eithaf.

Ond yr hyn sy'n fy nychryn yw'r hyn a ddangoswyd gan Arolwg a wnaed y llynedd wedi'r Refferendwm bondigrybyll. Dangosodd hwnnw fod 36% o'r bobl a holwyd o blaid adfer y gosb eithaf pan fydd Prydain wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Oni ddylai hynny godi calon dyn? Wedi'r cwbl, mae 36% yn sylweddol is na 45%. Ydi wrth gwrs, ond yr hyn sy'n fy nychryn yw'r ffaith fod 53% o'r bobl sydd o blaid Brexit o blaid y gosb eithaf. (Dim ond 20% o'r bobl oedd yn erbyn Brexit sydd o blaid y gosb eithaf.) A chan mai barn y mwyafrif sy'n cyfrif, a'r mwyafrif hwnnw ar hyn o bryd yn fwyafrif y Brexitiaid llafar, onid oes lle i ofni?

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glyn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067 marred567@btinternet.com

Cyfarfod Blynyddol

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan yng Nglasinfryn yn cael ei gynnal yn y Ganolfan nos Fercher, 28 Mehefin, am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Bydd cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn cael ei gynnal yn syth ar ôl y Cyfarfod Blynyddol. Ac mi fydd hi'n braf croesawu sawl aelod newydd o'r Pwyllgor i'r cyfarfod hwn.

Barbeciw cymunedol
Yn dilyn y barbeciw llwyddiannus a gynhaliwyd y llynedd, mae 'na griw prysur wedi bod yn trefnu barbeciw arall eleni ar gyfer trigolion Glasinfryn, Waen Wen a Chaerhun, a hynny ar ddydd Sadwrn 17 Mehefin. Bydd yn un o nifer o ddigwyddiadau

cymdeithasol a fydd yn cael eu cynnal ar draws y wlad er cof am y diweddard aelod seneddol, Jo Cox. Os hoffech chi helpu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â Gregg a Marcel ar 07734353138, neu trwy dudalen y pentre' ar facebook, sef Pobol Glasinfryn. Bydd y barbeciw yn dechrau am 3.00yp.

Newyddion trist
Trist oedd clywed am farwolaeth Anita Davies o Lasinfryn yn ddiweddar. Mi roedd hi'n berson annwyl a phoblogaidd ac mae bwlch yn y pentref ar ei hôl. Cydymdeimlwn â Mal, ei phlant, a'r teulu i gyd. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladd yn Amlosgfa Bangor, yng ngofal y Parch. John Matthews.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Ar y Bysys 2

Bysys y Moduron Porffor (i)

Yn wahanol i'r Leylands a'r Bristols oedd gan Crosville, roedd bysys y Purple Motors yn gymysgedd o wahanol fathau a chan wahanol wneuthurwyr. Roedd rhai'n rhedeg ar betrol ac eraill ar ddiesel a'r rhan fwyaf ohonyn nhw wedi eu prynu'n ail-law gan gwmnïau eraill. Yr un a wnaeth yr argraff fwyaf, efallai, oedd y dybl-dec - Guy Arab gydag injan Gardener - a brynwyd gan gwnni Vincent Greenhouse o'r Amwythig (ym 1947). Roedd Wyn (Thomas) yn cyfeirio yn ei lythyr ataf yn ddiweddar at y cyffro ym Methesda pan gyrhaeddodd decar yr ardal a phobl yn brolio ei bod yn uwch na decars Crosville.



Ac roedd pen yr Indiad Coch ar gaead y rheiddiadur ar ben blaen y decar yn tynnu sylw pawb - yn gymaint felly nes i rywun roi ei wyn arno a'i ddwyn, a welwyd fyth mohono wedyn! Yn ffodus, mae Wyn wedi gwneud llun ohono a dyma fo:



Bu'r decar ym Methesda am bymtheng mlynedd cyn iddi gael ei gwerthu yn 1962. Caf adrodd un neu ddwy o straeon yn gysylltiedig â hi ryw dro eto.
Ar diesel y rhedai'r decar ac felly hefyd y Leyland, bws unllawr, y byddem yn ei galw'n *ji-iw-i*, Cymreigiad o ran gyntaf ei phlât rif (GUE)! Daethai i Fethesda yn fws hanner-cab ond addaswyd hi'n ddiweddarach er mwyn i'r cab fod yn rhan o du mewn y bws a gwneud i ffwrdd â'r angen am gondyctyr - bws-un-dyn, felly. A dyma'r union fws yn Adwy'r Nant a Dafydd (David Elwyn, mab Mrs Rose Pritchard a oedd yn gydberchennog cwmni'r Purple Motors) efo Wil Phil tua chanol y 1960au.



Dafydd a minnau oedd y 'criw' y diwrnod hwnnw a chawsom ein dau lawer iawn o hwyl - ac ambell dro trwstan - yn ystod yr adeg y buom yn gweithio efo'n gilydd. Ond mwy am hynny eto!

I'w barhau

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR
Llun - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 16:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219

Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis hwn
ER COF
Am
W. J. WILLIAMS
Cloddiwr 751
Peiriannydd Brenhinol
A fu farw
2 - 6 - 1917
Yn 21 oed

JOHN HUGHES
Reiffllwr 202632
Catrawd Lerpwl y Brenin
A fu farw
14 - 6 - 1917
Yn 41 oed

DAVID GRIFFITH
Milwr Cyffredin Catrawd Cymru
32068
A fu farw
28 - 6 - 1917
Yn 23 oed
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. LI. WILLIAMS

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

Chwaraeon



Blas o'r Plas - llwyddiant gymnasteg

Yn ddiweddar mwynhaodd llu o ddisgyblion gymnasteg Plas Ffrancon llwyddiant mewn cystadleuaeth yn Llandrillo. Yn y llun torfol gwelir y criw llwyddiannus. Bydd 5 o'r disgyblion yn cael cyfle i fynd ymlaen i gystadlu ar lefel cenedlaethol yng Nghaerdydd ddiwedd y mis! Yn y llun mae'r 5 lwcus, sef Iori, Erin, Erin, Ela a Shaun.



Campau Cedol Dafydd

Mae Cedol Dafydd (16 oed) wedi cael ei ddewis yn Lysgennad i Gemau Cymru eleni. Cafodd ei enwebu gan Triathlon Cymru yn dilyn ei lwyddiant yn ras triathlon Gemau Cymru 2016 ym Mharc Bryn Bach. Fis Ebrill, bu'n rhan o'r treialon yn Loughborough a daeth yn ail o dan 19 allan o Gymru ac - yn yr un ras - yn 19^{eg} allan o'r ras gyfan trwy Brydain. Yn sgil hynny, mae wedi ennill ei le yn y rasys Super Series Prydeinig. Yn barod eleni mae wedi cynrychioli Cymru yn y traws-gwlad ysgolion Prydeinig a ddiwedd mis Mehefin bydd yn mynd i'r Eidal i gynrychioli Cymru am yr ail flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth WMRA sef ras ieuenectid Cymdeithas Rhedeg Mynydd y Byd.



Cefnogwr o Fri

Dyma lun o Dafydd Pritchard yn gwisgo'r fedal a gyflwynwyd iddo am fod yn gefnogwr gorau i Glwb Peldroed Mynydd Llandygái yn ystod y tymor diwethaf. Mae Dafydd wrth ei fodd fod y tîm wedi ennill dyrchafiad i gynghrair uwch ar ôl dod yn ail eleni. Ond nid yn unig dilyn y tîm i bob gêm mae Dafydd, ond mae'n helpu i godi arian at y clwb hefyd.

Ar Sadwrn, 27 Mai, trefnodd Dafydd fore coffi yng Nghaffi Coed y Brenin ac fe godwyd £345.00 i goffrau'r Clwb. Mae Dafydd yn ddiolchgar iawn am bob help a gafodd i wneud yr achlysur mor llwyddiannus. Diolch i staff Caffi Coed y Brenin, i Bronwen ac eraill am helpu, i bawb am y rhoddion a'r gwobrau ac i bawb am droi i fyny ar y bore Sadwrn. Diolch yn fawr i bawb meddai Dafydd - a diolch yn fawr i Dafydd meddai'r Clwb!



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddown@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen

@PlaidCymruOgwen